# Casglu Deunyddiau Gwastraff Ar Wahân i'w Hailgylchu – Cod Ymarfer Cymru

Mae'r cod ymarfer yn rhoi canllawiau ymarferol ar sut i fodloni'r gofynion gwahanu yng Nghymru ar gyfer deunyddiau gwastraff ailgylchadwy o eiddo annomestig.

Mae'r gofynion gwahanu wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

Gosodwyd y cod hwn gerbron Senedd Cymru yn unol ag adran 45AB(4)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

DRAFT

**Cynnwys**

Crynodeb .......... 2
1. Cyflwyniad .......... 3
2. Yr hierarchaeth wastraff .......... 4
3. Ailgylchu o ansawdd uchel .......... 4
4. Beth yw'r gofynion gwahanu? .......... 5
5. Oes rheidrwydd arnaf? .......... 9
6. Gofynion cyfreithiol ategol eraill .......... 13
7. Eich rhwymedigaethau fel meddiannydd eiddo annomestig .......... 15
8. Eich rhwymedigaethau fel rhywun sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff a reolir yng Nghymru .......... 22
9. Geirfa .......... 26
Atodiad 1 Yr is-ffracsiynau gwydr sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy gwydr .......... 30
Atodiad 2 – Yr is-ffracsiynau cartonau, metel a phlastig sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig .......... 31
Atodiad 3 – Yr is-ffracsiynau papur a cherdyn sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy papur a cherdyn .......... 34
Atodiad 4 – Yr is-ffracsiynau gwastraff bwyd sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy gwastraff bwyd .......... 35
Atodiad 5 – Yr is-ffracsiynau offer trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy sWEEE .......... 36
Atodiad 6 – Yr is-ffracsiynau tecstilau nas gwerthwyd sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy tecstilau nas gwerthwyd .......... 38
Atodiad 7 Enghreifftiau o eiddo annomestig .......... 39

## Crynodeb

Mae'r cod ymarfer hwn ("y cod hwn") yn nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion gwahanu sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau"). Mae'r Rheoliadau, a ddaeth i rym ar 6ed Ebrill 2024, yn gymwys i:

a) feddianwyr eiddo annomestig (gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector) sy'n cyflwyno deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig i'w casglu;

b) y rhai sy'n casglu, neu'n trefnu i gasglu, gwastraff o eiddo annomestig; ac

c) y rhai sy'n derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff o eiddo annomestig.

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru at ddibenion adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("yr EPA") gyda'r nod o sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel. Mae'r gofynion gwahanu'n gymwys mewn cysylltiad â phob eiddo ar wahân i eiddo domestig a charafannau. Roedd gan ysbytai eithriad dwy flynedd o'r gofynion gwahanu ond mae'r eithriad hwnnw wedi dod i ben, ac o'r 6 Ebrill 2026, bydd ysbytai yn destun gwahanu.

Y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy y mae angen eu cyflwyno ar wahân i'w casglu, eu casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu yw:

(a) gwydr;
(b) cartonau a'u tebyg, metel a phlastig;
(c) papur a cherdyn;
(d) gwastraff bwyd o eiddo sy'n cynhyrchu 5 cilogram neu fwy o wastraff bwyd mewn saith diwrnod yn olynol;
(e) offer trydanol ac electronig gwastraff bach[1];
(f) tecstilau nas gwerthwyd,

pob un yn cynnwys yr is-ffracsiynau gwastraff a restrir yn Atodiadau 1-6 y cod hwn ac yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau.

Ni ddylid cynnwys gwastraff sydd wedi'i gategoreiddio'n wastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005, neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio'n wastraff neu sylweddau peryglus neu wastraff sydd wedi'i halogi ganddynt yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy.

[1] Rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2026 dim ond offer trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu oedd yn destun y gofynion gwahanu.

DRAFT

Yn ogystal, o 6 Ebrill 2024 mae gwaharddiadau ategol ar waredu gwastraff bwyd i garthffos o eiddo annomestig, gwaharddiadau ar ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân penodedig yn mynd i beiriannau llosgi a safleoedd tirlenwi, a gwaharddiad ar bob gwastraff pren sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu yn drosedd heb unrhyw derfyn uchaf ar bŵer y llysoedd i ddirwyo. Gellir rhoi sancsiwn sifil am fethu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu, yn lle erlyniad troseddol.

Mae'r cod hwn yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol ac mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol iddo.

Y rheoleiddiwr ar gyfer y gofynion gwahanu yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru").

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r cod ymarfer hwn ("y cod hwn") yn nodi canllawiau ymarferol ar sut i gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u cynnwys yn adran 45AA o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("EPA") ac a gyflwynir ganddi a'r gofynion gwahanu sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023 ("y Rheoliadau"). Cyhoeddir y cod hwn o dan adran 45AB o'r EPA mewn perthynas â chyflwyno, casglu a thrin gwastraff ar wahân.

1.2 Cyfeirir hefyd at y darlun deddfwriaethol ehangach a'r gofynion cyfreithiol ategol cyfatebol ar gyfer y rhai sy'n cynhyrchu a rheoli gwastraff a reolir, er enghraifft y gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos, gwaharddiadau llosgi a thirlenwi, y ddyletswydd gofal o ran gwastraff a'r hierarchaeth wastraff. Mae hyn er mwyn cynorthwyo gyda dealltwriaeth o rwymedigaethau cyfreithiol ehangach. Ni ellir cymryd y cod hwn fel canllaw diffiniol i rwymedigaethau cyfreithiol ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn adran 45AA o'r EPA felly lle y bo'n gymwys, mae'n rhaid i chi gyfeirio at y ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig.

1.3 Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno gofynion newydd i gynyddu ansawdd a lefel yr ailgylchu sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru, "*Mwy Nag Ailgylchu, Strategaeth i wneud economi gylchol Cymru yn realiti*"[2] ac maent yn adlewyrchu dyletswyddau ehangach sy'n gymwys i Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'r gofynion gwahanu yn cefnogi dyletswyddau Llywodraeth Cymru a nodir yn Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynlluniau rheoli gwastraff a hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel, gan gynnwys sefydlu casgliadau ar wahân o wastraff.

1.4 Mae'r gofynion gwahanu yn y Rheoliadau yn gofyn am fwy o ffocws ar y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu, gan alluogi cyfleoedd i atal gwastraff. Maent hefyd yn sicrhau lefelau uchel o ailgylchu o ansawdd uchel a gostyngiad yn y

[2] https://www.llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu-0.

gwastraff sy'n cael ei anfon i gael ei losgi ac i safleoedd tirlenwi. Yn gyffredinol bydd hyn yn helpu i gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant (gan gynnwys canlyniadau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol, bydd hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at leihau allyriadau carbon, mynd i'r afael â'r dirywiad byd-eang mewn bioamrywiaeth, sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon posibl o adnoddau, helpu gweithgynhyrchwyr Cymru i fod yn fwy gwydn o ran sicrhau deunyddiau crai, a lleihau ôl troed amgylcheddol byd-eang Cymru. Mae strategaeth Mwy Nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru yn nodi pwysigrwydd yr economi gylchol a defnyddio adnoddau am gyn hired â phosibl.

1.5 Mae'r cod hwn yn dderbyniol fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol ac mae'n rhaid i lys ei ystyried wrth benderfynu ar unrhyw gwestiwn y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol iddo.

1.6 Y rheoleiddiwr ar gyfer y gofynion gwahanu yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("Cyfoeth Naturiol Cymru").

1.7 Mae'r eirfa yn adran 9 yn rhoi esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y cod hwn.

## 2. Yr hierarchaeth wastraff

2.1 Mae Rheoliad 12(1) o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 yn nodi:

> *An establishment or undertaking which imports, produces, collects, transports, recovers or disposes of waste, or which as a dealer or broker has control of waste must, on the transfer of waste, take all such measures available to it as are reasonable in the circumstances to apply the following waste hierarchy as a priority order:*
>
> *(a) prevention;*
>
> *(b) preparing for re-use;*
>
> *(c) recycling;*
>
> *(d) other recovery (for example energy recovery);*
>
> *(e) disposal.*

## 3. Ailgylchu o ansawdd uchel

3.1 Mae'r Rheoliadau'n nodi'r gofynion gwahanu yng Nghymru gyda'r nod o sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli mewn modd sy'n hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel.

3.2 Gall cyflenwi deunyddiau eilaidd o ansawdd uchel sy'n deillio o ailgylchu gwastraff gynnig cyflenwad gwerthfawr, gwydn a chost-effeithiol o ddeunyddiau crai i ddiwydiannau Cymru, ac mae'n fwy tebygol o arwain at ailgylchu "dolen gaeedig" sydd â gwell canlyniadau amgylcheddol nag ailgylchu "dolen agored" ar y cyfan.



DRAFT

3.3 Lle caiff deunyddiau gwastraff eu casglu mewn ffrydiau cymysg neu ailgylchadwy cymysg (y cyfeirir atynt hefyd fel ffrydiau “ailgylchu cymysg sych” neu “DMR”), gallant groeshalogi ei gilydd yn aml a gall hyn arwain hefyd at halogi gyda lefelau uchel o ddeunydd nad yw wedi'i dargedu ar gyfer ailgylchu, gan leihau ansawdd y deunydd eildro a'r cynnyrch terfynol sydd wedi'i ailgylchu. Ymhlith enghreifftiau mae cynnwys dros ben cynwysyddion bwyd a diodydd yn difwyno/baeddu papur a chardbord gwastraff, a darnau gwydr o boteli a jariau’n cael eu dal mewn papur a chardbord gwastraff, gan ddifrodi'r offer a ddefnyddir i ailgylchu'r deunyddiau perthnasol. Yn aml iawn mae hyn yn arwain at ddefnydd llai buddiol o'r deunydd eildro, gan leihau'r buddion amgylcheddol neu eu dileu'n gyfan gwbl. Byddai'r rhain yn enghreifftiau o ailgylchu o ansawdd isel. Weithiau gall yr halogiad fod mor ddifrifol fel bod yn rhaid gwrthod y llwyth a'i anfon i gael ei losgi neu i safle tirlenwi.

3.4 Mae cynhyrchu deunydd eildro o ansawdd gwael yn golygu atebion ailgylchu terfynol sydd â gwerth is sy'n oedi yn hytrach nag atal y broses o waredu'r deunydd neu gall arwain at effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol niweidiol yng Nghymru, rhannau eraill o'r DU neu dramor. Mae 'Mwy nag Ailgylchu' yn cynnwys amcan hefyd i atal allforio gwastraff problemus o Gymru; mae ailgylchu o ansawdd uchel yn ffordd o gyflawni hyn. Mae casglu ar wahân yn hyrwyddo ailgylchu o ansawdd uchel.

3.5 Gall cyd-gasglu plastig, metel a chartonau gwastraff ailgylchadwy a deunydd pecynnu cyfansawdd ffibr-plastig arall tebyg mewn un ffrwd barhau i hwyluso ailgylchu o ansawdd uchel oherwydd y gallu i wahanu'r deunyddiau gwastraff yn effeithiol oddi wrth ei gilydd gan ddefnyddio offer didoli syml.

3.6 Mae angen i'r gadwyn gyflenwi gwastraff, o’r cynhyrchydd hyd at ddylunio a gweithredu systemau rheoli gwastraff, gydweithio i gynyddu cymaint â phosibl y ddarpariaeth o ddeunydd gwastraff o ansawdd uchel sy'n gallu bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan y rhai sy'n ailbrosesu deunyddiau mewn systemau dolen gaeedig o ansawdd uchel. Mae rhai safonau ansawdd ar gyfer derbynioldeb deunyddiau gwastraff i'w hailgylchu, a lle maent yn bodoli, mae angen eu bodloni er mwyn sicrhau bod y deunydd gwastraff yn bodloni'r safon o ran ansawdd uchel.

## 4. Beth yw'r gofynion gwahanu?

Y gofynion gwahanu

4.1 Mae dyletswydd ar feddianwyr eiddo annomestig, gan gynnwys busnesau, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, pan fyddant yn cyflwyno gwastraff i'w gasglu, i sicrhau bod pob math o ddeunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig yn cael ei gyflwyno i'w gasglu mewn ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân, ac ar wahân i fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Cyfeirir at hyn yn y cod hwn fel “gofynion gwahanu'r meddiannydd”.

4.2 Mae gan y rhai sy'n casglu, neu sy'n trefnu ar gyfer casglu, un neu ragor o'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig, ddyletswydd i gasglu, neu i drefnu ar gyfer casglu, y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy sydd wedi'u gwahanu ar wahân (hynny yw, i beidio â chymysgu ffrwd ag unrhyw ffrwd wastraff arall) ac ar wahân i fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Cyfeirir at hyn yn y cod hwn fel “gofynion gwahanu'r casglwr”.

4.3 Ni ddylai'r rhai sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff gymysgu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gasglwyd ar wahân gydag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall neu gyda mathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Cyfeirir at hyn yn y cod hwn fel “gofynion gwahanu'r triniwr gwastraff”.

4.4 Mae'r naw deunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig y mae angen eu gwahanu i'w casglu, eu casglu ar wahân, a'u cadw ar wahân ar ôl eu casglu, mewn chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân, o leiaf, fel a ganlyn:

(a) gwydr;

(b) cartonau a’u tebyg, metel a phlastig;

(c) papur a cherdyn;

(d) gwastraff bwyd o eiddo sy'n cynhyrchu 5 cilogram neu fwy o wastraff bwyd mewn saith diwrnod yn olynol;

(e) offer trydanol ac electronig gwastraff bach[3];

(f) tecstilau nas gwerthwyd;

y mae pob un yn cynnwys yr “is-ffracsiynau” gwastraff a restrir yn Atodiadau 1-6 y cod hwn ac yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau.

4.5 Y rhwymedigaethau a nodir ym mharagraffau 4.1, 4.2, 4.3 a 4.4, gyda'i gilydd, yw'r “gofynion gwahanu”.

4.6 Er mwyn cyflawni ailgylchu o ansawdd uchel, rhaid i'r eitemau a roddir ym mhob ffrwd wastraff ailgylchadwy fod yn wag ac wedi’u glanhau os oes angen. Mae lefel y gweddillion derbyniol yn debygol o amrywio yn seiliedig ar anghenion gwahanol ailbroseswyr ac mae angen dilyn eu gofynion cyn belled ag y bo modd.

4.7 Mae methu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu’n drosedd heb unrhyw derfyn uchaf ar bŵer y llysoedd i ddirwyo. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru osod sancsiwn sifil am fethu â chydymffurfio â'r gofynion gwahanu, yn lle erlyniad troseddol. Mae sancsiynau sifil yn gosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau am beidio â chydymffurfio. Mae'r Rheoliadau’n gwneud darpariaeth ar gyfer y gweithdrefnau sy'n ymwneud â'r sancsiynau sifil a'r apelau sydd ar gael.

DRAFT

[3] Rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2026 dim ond offer trydanol ac electronig gwastraff bach heb ei werthu oedd yn destun y gofynion gwahanu.

Beth yw'r “is-ffracsiynau” y mae’r gofynion gwahanu’n gymwys iddynt?

4.8 Yr “is-ffracsiynau” gwastraff a restrir yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau, sy'n cael eu hadlewyrchu yn Atodiadau 1-6 y cod hwn, yw, yn y rhan fwyaf o achosion, yr eitemau nodweddiadol a geir yn gyffredin mewn gwastraff cartrefi. Maent yn cael eu casglu o bob eiddo domestig ledled Cymru fwy neu lai.

4.9 Mae Atodiad 2 yn cynnwys disgrifiad o'r is-ffracsiynau plastig y mae'n rhaid eu gwahanu i'w hailgylchu o ran math o bolymer a'r math o becynnu. Yn aml, darperir marciau a chodau adnabod polymer ar becynnu ( y “Cod Adnabod Resin”). Mae'r rhestr o bolymerau derbyniol ar gyfer gwahanu yn eithrio’n benodol eitemau plastig “y gellir eu compostio” a wneir o bolymerau fel arfer, megis asid polylactig (PLA), neu polyhydrocsibwtyrad (PHB) neu bolyhydrocsialcanöad (PHA).

4.10 Mae Atodiad 2 yn cyfeirio at “bympiau” a “sbardunau”. Defnyddir “pwmp” mewn cynwysyddion sebon hylif yn aml; fel arfer, rydych yn ei wthio i lawr i ryddhau'r hylif. Defnyddir “sbardun” ar gyfer hylifau rydych am eu chwistrellu ar arwyneb (er enghraifft i lanhau ffenestri). Gan amlaf, rydych yn gwasgu'r sbardun i ryddhau’r hylif. Mae'r ddau’n fecanwaith (wedi'i wneud o blastig) sydd ynghlwm wrth y cynhwysydd i ddosbarthu'r cynnwys yn hawdd.

4.11 Gwneir cyfeiriad penodol o dan y rhestr o is-ffracsiynau plastig i'w gwahanu i'w hailgylchu yn Atodiad 2 at gynnwys caeadau plastig “anhyblyg” a “lled-anhyblyg” sydd ar botiau, tybiau a hambyrddau plastig yn aml. Gellir ailgylchu'r rhain. Ni ellir ailgylchu caeadau wedi'u gwneud o ffilm blastig denau, a dylid eu gosod yn y ffrwd wastraff weddilliol (na ellir ei ailgylchu).

4.12 Mae i “gwastraff bwyd” yr ystyr a roddir i “food waste” yn adran 34D(5) o'r EPA, ond nid yw'n cynnwys:

a) sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n ffurfio deunydd Categori 1 fel y'i rhestrir yn Erthygl 8, neu ddeunydd Categori 2 fel y'i rhestrir yn Erthygl 9, o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009
b) gwastraff bwyd o eiddo sy’n cynhyrchu llai na 5 cilogram o wastraff bwyd mewn saith diwrnod yn olynol; neu
c) unrhyw wastraff sydd wedi’i gategoreiddio’n wastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy’n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi’u categoreiddio’n beryglus o dan reoliad 6 o’r Rheoliadau hynny neu sydd wedi’i halogi gan wastraff neu sylweddau o’r fath.

4.13 Diffiniad Adran 34D(5) o’r EPA o wastraff bwyd yw:

*“food waste” means controlled waste that—*
*(a) has at any time been food (which for this purpose does not include drink) intended for human consumption, or*
*(b) is biodegradable waste arising from the processing or preparation of food or drink,*
*but does not include waste that is mixed with water or any other liquid as a result of the water or liquid having been used to clean any place or equipment used in processing or preparing food or drink”.*

4.14 “Mae “cartonau a’u tebyg” yn golygu deunydd pecynnu cyfansawdd seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynnu sydd wedi'i wneud o bapur-fwrdd neu ffibrau papur, wedi'i lamineiddio â phlastig polythen neu bolypropylen dwysedd isel, ac a allai gynnwys haenau o ddeunyddiau eraill hefyd, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw, cyfyngedig i: cartonau, cwpanau diodydd papur gyda haen blastig polythen neu polypropylen dwysedd isel a chynwysyddion papur caled (er enghraifft tiwbiau creision ar ffurf twr).

4.15 Mae “nas gwerthwyd” yn golygu cynnyrch defnyddiwr heb ei ddefnyddio, mewn ffatri, safle manwerthu, cyfanwerthwr, warws neu safle arall, nad yw wedi ei werthu i ddefnyddiwr neu y mae wedi'i werthu a'i ddychwelyd gan ddefnyddiwr. Nid yw “nas gwerthwyd” yn cynnwys nwyddau ail-law. Fodd bynnag, lle mae siop elusen neu siop ail-law’n derbyn rhodd o stoc newydd heb ei ddefnyddio sydd erioed wedi cael ei werthu i ddefnyddiwr, yna byddai'r eitemau hynny’n cael eu hystyried yn rhai “nas gwerthwyd”. O ganlyniad i hyn, pe bai siop yn methu â gwerthu eitemau o'r fath ac yn penderfynu eu gwaredu, byddai'r gofynion gwahanu’n gymwys iddynt.

4.16 Mae'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy penodedig y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.4 yn cynnwys y rhai a ddefnyddir mewn amrywiaeth eang o fathau o gynhyrchion a deunydd pecynnu, ac nid yw pob un ohonynt yr un fath o ran eu natur a'u cyfansoddiad. Cydnabyddir nad oes modd ailgylchu rhai is-ffracsiynau o'r deunyddiau gwastraff yn hawdd ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys rhai mathau o wastraff plastig (er enghraifft, deunydd pecynnu plastig y gellir ei gompostio a ffilm blastig hyblyg) a mathau o wydr (er enghraifft gwydrau yfed). Yn wir, gall cynnwys yr is-ffracsiynau gwastraff hyn sy'n anodd eu hailgylchu yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân, ar ei waethaf, atal y ffrwd wastraff gyfan rhag cael ei hailgylchu oherwydd yr effeithiau halogi, neu yn y man lleiaf, gall arwain at ailgylchu dolen agored o ansawdd isel. Felly, dylid gosod eitemau o'r fath yn y gwastraff gweddilliol, er bod meddianwyr yn cael eu hannog i'w hailgylchu lle mae cyfleusterau ailgylchu lleol yn bodoli sy'n derbyn deunyddiau o'r fath. Dylech siarad â'ch casglwr gwastraff i nodi unrhyw eitemau ychwanegol y gellir eu derbyn i'w hailgylchu.

<u>Pa fathau o wastraff sydd heb eu cynnwys yn y gofynion gwahanu?</u>

4.17 Nid yw'r Rheoliadau’n gymwys i'r canlynol:

(a) mae gwastraff sydd wedi'i gategoreiddio’n wastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio’n rhai peryglus neu sydd wedi'i halogi gan wastraff neu sylweddau o’r fath, yn cael eu heithrio o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy, gan gynnwys unrhyw eitemau gwastraff sy'n cynnwys llygryddion organig parhaus (POPs) os ydynt yn uwch na'r terfynau crynodiad rhagnodedig[4];

[4] https://www.gov.uk/guidance/dispose-of-waste-containing-persistent-organic-pollutants-pops#:~:text=in%20the%20waste-.

(b) rhaid peidio â gosod sgil-gynhyrchion anifeiliaid wedi eu ffurfio o ddeunydd Categori 1 fel y'i rhestrir yn Erthygl 8, neu ddeunydd Categori 2 fel y'i rhestrir yn Erthygl 9, o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 yn y ffrwd wastraff bwyd a dylid eu gwaredu yn lle hynny yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid;

(c) gwastraff a reolir a gesglir gan awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw briffordd berthnasol lle mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o dan adran 89(1)(a) o'r EPA i sicrhau bod y tir, i'r graddau y bo'n ymarferol, yn cael ei gadw'n glir o sbwriel;

(d) gwastraff a reolir a gesglir gan brif awdurdod sbwriel mewn perthynas â'i dir perthnasol lle mae gan y prif awdurdod sbwriel ddyletswydd o dan adran 89(1)(c) o'r EPA i sicrhau bod y tir, i'r graddau y bo'n ymarferol, yn cael ei gadw'n glir o sbwriel.

Gall rhai deunyddiau gwastraff ailgylchadwy fod yn wastraff peryglus yn eu rhinwedd eu hunain, neu gallant fod wedi'u halogi â sylweddau peryglus (er enghraifft caniau aerosol sy'n cynnwys tanwyddau fflamadwy, neu olewau mwynol neu doddyddion, gan gynnwys aerosolau gwag lle byddai naill ai'r tanwydd neu gyfansoddion eraill yn gwneud yr aerosol hwnnw'n wastraff peryglus hyd yn oed ar ôl ei ddefnyddio). Os felly, ni ddylid eu rhoi yn y ffrwd wastraff ailgylchadwy berthnasol, ac yn lle hynny dylid eu trin fel gwastraff peryglus yn unol â'r ddeddfwriaeth gymwys. Os nad ydych yn sicr, siaradwch â'ch casglwr gwastraff er mwyn cytuno sut i waredu'r rhain. Pan bennir bod gwastraff yn beryglus, bydd angen ei waredu'n unol â gofynion Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005. Os ydych wedi asesu'ch gwastraff ac nad ydych yn siŵr a yw'n beryglus ai peidio, yna dylech gymhwyso'r egwyddor rhagofalus a'i ddosbarthu fel gwastraff peryglus a rheoli yn unol â hynny fel y nodir uchod. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i sWEEE ond dylid ei ystyried hefyd wrth ddelio â gwastraff eraill fel aerosolau.

## 5. Oes rheidrwydd arnaf?

<u>Eiddo annomestig</u>

5.1 Mae'r gofynion gwahanu'n gymwys i wastraff a reolir o eiddo annomestig, gan gynnwys eiddo a feddiannir gan gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae eiddo annomestig yn cynnwys unrhyw safle ac eithrio eiddo domestig neu garafán. Mae'r gofynion gwahanu'n gymwys i bob gwastraff a reolir o eiddo annomestig gan gynnwys gwastraff cartref, masnachol a diwydiannol.

5.2 Mae enghreifftiau o eiddo annomestig at ddiben y Rheoliadau'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, y rhai a nodir yn Atodiad 7.

5.3 Ni fwriedir i’r rhestr o eiddo annomestig y cyfeirir ati uchod fod yn hollgynhwysol. Wrth ystyried a yw eiddo’n dod o fewn cwmpas y Rheoliadau gall y ffactorau canlynol fod o gymorth:

- a oes ardrethi busnes yn daladwy mewn perthynas â’r eiddo? Fel arfer byddai talu ardrethi busnes yn arwydd bod yr eiddo’n annomestig;
- a yw’r defnydd cyfredol o’r eiddo, at ddibenion cynllunio, yn ddefnydd domestig fel C3 (Tai annedd) a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd neu C4 (Tai amlfeddiannaeth)? Os nad dyna’r achos, yna byddai’n arwydd fel arfer bod yr eiddo’n annomestig;
- a yw’r Dreth Gyngor yn daladwy mewn perthynas â’r eiddo? Fel arfer, byddai hyn yn arwydd bod yr eiddo’n un domestig ac felly y tu allan i gwmpas y Rheoliadau.

5.4 Mae fflatiau preswyl, hyd yn oed pan fo’r casgliad gwastraff yn cael ei reoli gan gwmni rheoli (gan gynnwys llety myfyrwyr), yn cael eu heithrio o’r gofynion gwahanu.

5.5 Ar gyfer eiddo defnydd cymysg, dim ond i’r gwastraff a gynhyrchir gan yr elfen annomestig y mae’r gofynion gwahanu’n gymwys. Lle mae gan gyfadeiladau gyfleusterau integredig cymunedol fel campfeydd, golchdai, a mannau cydweithio, mae’r gofynion gwahanu yn gymwys i’r cydrannau annomestig yn unig. Os yw unigolyn yn rhedeg busnes, neu’n cynnal rhyw fath o weithgaredd busnes o’i gartref efallai y bydd angen ystyried a yw cynnal y busnes yn golygu bod rhan o’r eiddo’n annomestig.

5.6 Nid yw meddianwyr carafannau unigol sy’n cyflwyno eu gwastraff yn uniongyrchol i’w gasglu o’u carafán gan gasglwr gwastraff awdurdodedig yn dod o fewn cwmpas y Rheoliadau. Fodd bynnag, os oes gan barciau neu safleoedd carafannau drefniadau casglu gwastraff cymunedol, rhaid gwahanu’r gwastraff hwnnw yn unol â’r Rheoliadau.

5.7 Mae “eiddo” yn derm eang, nad yw wedi’i gyfyngu i rannau mewnol adeiladau. Felly, gall gynnwys tir, parciau a mannau agored lle mae gwastraff yn cael ei gyflwyno i’w gasglu oddi yno, er enghraifft gwastraff a gesglir o safle gŵyl. Fel yr eglurir ym mharagraffau 4.17 (c) a (d), mae gwastraff a reolir a gesglir gan Awdurdodau Lleol yn unol â’r dyletswyddau sydd wedi’u cynnwys yn adran 89 o’r EPA mewn cysylltiad â bod yn: i) prif awdurdod sbwriel (adran 89(1)(c)); neu ii) awdurdod priffyrdd (adran 89(1)(a)) wedi’u heithrio o’r gofynion gwahanu. Felly, nid oes rhaid i sbwriel a gesglir gan yr Awdurdod Lleol yn y rolau hyn, gan amlaf o strydoedd, palmentydd a mannau agored sy’n hygyrch i’r cyhoedd, gael eu gwahanu wrth eu cyflwyno i’w casglu. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cysondeb ac arfer da, argymhellir bod biniau sbwriel ar wahân ar gyfer eitemau ailgylchadwy yn cael eu darparu mewn unrhyw leoliadau lle mae yna finiau sbwriel fel y gall Awdurdodau Lleol, lle bynnag y bo’n bosibl, drefnu i sbwriel gael ei ailgylchu.

DRAFT

Meddianwyr eiddo annomestig

5.8 Mae'n rhaid i bob meddiannydd eiddo annomestig gydymffurfio â gofynion gwahanu'r meddiannydd.

5.9 Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y meddiannydd at ddibenion y Rheoliadau fydd y person sydd naill ai (a) yn gwneud y trefniadau casglu gwastraff gyda'r Awdurdod Lleol neu'r casglwr gwastraff preifat a/neu (b) yn cyflwyno gwastraff i'w gasglu o'r eiddo (boed yn cael ei gasglu gan awdurdod casglu gwastraff neu gan unrhyw fusnes neu berson arall).

5.10 Bydd amgylchiadau unigol pob achos yn penderfynu pwy sy'n cael ei ystyried yn feddiannydd at ddibenion gofynion gwahanu'r meddiannydd. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bwy fyddai'n fwyaf tebygol o gael ei ystyried yn feddiannydd yn y senarios a restrir isod:

| Senario | Meddiannydd |
|---|---|
| Parciau busnes, manwerthu neu letygarwch gydag unedau lluosog a threfniadau casglu gwastraff cymunedol | Meddiannydd pob uned unigol |
| Digwyddiadau fel gwyliau, cyngherddau a sioeau | Trefnydd y digwyddiad |
| Safleoedd adeiladu | Prif gontractwr |
| Parciau carafannau dibreswyl a meysydd gwersylla | Perchennog/gweithredwr safle |
| Gwestai | Perchennog/gweithredwr |
| Gorsafoedd bysiau, bysiau moethus a threnau | Perchennog/gweithredwr |

5.11 Ar gyfer safle ym meddiant busnesau lluosog (er enghraifft parc neu gyfadeilad busnes, manwerthu neu letygarwch) lle mae un contract ar gyfer casglu gwastraff a reolir gan y perchennog neu asiantaeth rheoli cyfleusterau, byddem yn disgwyl i'r cytundeb tenantiaeth gynnwys gofyniad i'r partïon gydymffurfio â'r gofynion gwahanu.

5.12 Caiff y meddiannydd, er enghraifft, fod yn berchen ar yr eiddo, ei brydlesu neu ei rentu gan berchennog y tir, neu ei feddiannu dros dro gyda chaniatâd perchennog y tir. Byddai hyn yn cynnwys digwyddiadau chwaraeon – er enghraifft digwyddiadau rhedeg, beicio neu nofio.

5.13 Roedd gan ysbytai eithriad dwy flynedd o'r gofynion gwahanu ond mae'r eithriad hwnnw wedi dod i ben, ac o'r 6 Ebrill 2026, bydd ysbytai yn destun gwahanu.

DRAFT

5.14 Nid yw p'un ai a yw safle penodedig o fewn cwmpas y gofynion gwahanu ai peidio yn pennu a all Awdurdod Lleol godi tâl am gasglu'r gwastraff hwnnw.

Casglwyr gwastraff

5.15 Mae gofynion gwahanu'r casglwr yn gymwys i:

a) awdurdod casglu gwastraff yng Nghymru sy'n trefnu i gasglu gwastraff a reolir o eiddo annomestig yn ei ardal o dan adran 45 o'r EPA; a

b) person sy'n gweithredu mewn busnes sy'n casglu gwastraff a reolir o eiddo annomestig yng Nghymru.

5.16 Mae person yn gweithredu mewn busnes os yw'r person yn:

a) cynnal unrhyw fusnes neu ymgymeriad, boed er elw ai peidio; neu

b) yn arfer unrhyw swyddogaethau o natur gyhoeddus.

5.17 Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) Awdurdodau Lleol, cwmnïau casglu gwastraff preifat ac elusennau sy'n casglu gwastraff o eiddo annomestig.

5.18 Mae sefydliad neu ymgymeriad sy'n casglu gwastraff o eiddo domestig yn ddarostyngedig i'r gofynion casglu sydd wedi'u cynnwys yn rheoliad 13 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'n rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau statudol ar wahân a gyhoeddwyd o dan reoliad 15 o'r rheoliadau hynny i'r graddau y maent yn gymwys i gasglu ar wahân wastraff o eiddo domestig[5].

Trinwyr gwastraff

5.19 Mae gofynion gwahanu'r triniwr gwastraff yn gymwys i awdurdod casglu gwastraff ac i berson sy'n gweithredu mewn busnes sy'n derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff a reolir yng Nghymru.

5.20 Mae person yn gweithredu mewn busnes os yw'r person yn:

a) cynnal unrhyw fusnes neu ymgymeriad, boed er elw neu beidio, neu

b) yn arfer unrhyw swyddogaethau o natur gyhoeddus.

5.21 Mae hyn yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) Awdurdodau Lleol, cwmnïau casglu gwastraff preifat, ac elusennau sy'n casglu gwastraff o eiddo annomestig.

5.22 Rhaid i sefydliad neu ymgymeriad sy'n casglu, cludo neu'n derbyn gwastraff o eiddo domestig sicrhau, lle mae'r gwastraff hwnnw wedi'i gasglu ar wahân, nad

[5] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/casgliad-ar-wahan-o-bapur-gwastraff-plastig-metel-a-gwydr.pdf.



DRAFT

yw'n cael ei gymysgu â deunydd arall gyda gwahanol briodweddau fel y nodir yn rheoliad 14 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'n rhaid iddo roi sylw i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan reoliad 15 o'r rheoliadau hynny, i'r graddau y maent yn gymwys i gasglu gwastraff ar wahân o eiddo domestig.

## 6. Gofynion cyfreithiol ategol eraill

Gwaharddiadau ar waredu i safleoedd tirlenwi neu losgi

6.1 Cafodd y deunyddiau gwastraff canlynol sy'n cael eu casglu ar wahân o bob ffynhonnell at ddiben paratoi i'w hailddefnyddio neu eu hailgylchu eu gwahardd o safleoedd tirlenwi[6] a llosgi[7] o fis Gorffennaf 2020 ymlaen:

(a) papur;

(b) gwydr;

(c) metel;

(d) plastig.

6.2 O 6 Ebrill 2024, ychwanegodd y Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023 y deunyddiau gwastraff ychwanegol canlynol at y gwaharddiad a nodir uchod:

(a) cerdyn;

(b) cartonau a phecynnu cyfansawdd ffibr-plastig eraill;

(c) gwastraff bwyd;

(d) pob offer trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE);

(e) tecstilau nas gwerthwyd.

6.3 Yn ogystal â'r uchod, o 6 Ebrill 2024 ymlaen, mae unrhyw wastraff tecstilau sy'n cael ei gasglu ar wahân (o bob ffynhonnell) at y diben o'i baratoi i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu wedi'i wahardd rhag cael ei waredu i safleoedd tirlenwi.

6.4 Mae hyn yn golygu y byddai angen i unrhyw wastraff tecstilau (heblaw tecstilau nas gwerthwyd) sy'n cael ei gasglu ar wahân na ellir ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu fynd i gael ei losgi, ac nid i safle tirlenwi, yn unol â'r hierarchaeth wastraff.

6.5 Mae'r gwaharddiad tirlenwi a llosgi yn gymwys i'r holl ddeunyddiau perthnasol lle cawsant eu casglu ar wahân (o unrhyw ffynhonnell) at ddibenion paratoi i'w

[6] Atodlen 10, paragraff 5A, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (O.S. 2016/1154).

[7] Atodlen 9, Rhan 4, paragraff 1, Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

hailddefnyddio neu eu hailgylchu, ni waeth a oedd eu cyflwyno a'u casglu ar wahân yn ofyniad cyfreithiol neu wedi'i gyflawni'n wirfoddol.

6.6 O 6 Ebrill 2024 ymlaen mae pob pren gwastraff o bob ffynhonnell wedi ei wahardd o safleoedd tirlenwi, ni waeth a yw'r pren hwnnw wedi'i gasglu ar wahân ai peidio.

Dyletswydd gofal gwastraff

6.7 Mae'r gofynion gwahanu'n ategu gofynion dyletswydd gofal ar gyfer gwastraff. Mae'r ddeddfwriaeth dyletswydd gofal gwastraff yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff yn ddiogel i amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd. Mae cod ymarfer ar gyfer y ddyletswydd gofal gwastraff sy'n gymwys i unrhyw un sy'n cynhyrchu, cario, cadw, gwaredu, trin neu fewnforio gwastraff penodol neu sydd â rheolaeth dros wastraff penodol yng Nghymru neu Loegr. Mae ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/waste-duty-of-care-code-of-practice.

Eitemau gwastraff sy'n beryglus

6.8 Caiff trin a rheoli gwastraff peryglus ei reoleiddio ar wahân. Ni ddylid cyflwyno gwastraff i'w gasglu sydd wedi'i gategoreiddio'n wastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio'n rhai peryglus neu sydd wedi'u halogi ganddynt o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny yn unrhyw un o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy y cyfeirir atynt ym mharagraff 4.4. Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheoleiddiwr at ddibenion Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005. Gall unrhyw un o'r deunyddiau gwastraff sy'n cael eu cynnwys yn y gofynion gwahanu fod yn beryglus os ydynt yn cynnwys lefelau o gemegion neu ddeunyddiau eraill sy'n achosi i'r gwastraff fod â phriodweddau peryglus. Mae canllawiau ar gael ar sut i ddosbarthu gwastraff a all gynnwys priodweddau peryglus: https://www.gov.uk/government/publications/waste-classification-technical-guidance.

Gwastraff sy'n sgil-gynhyrchion anifeiliaid

6.9 Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 yn gosod rheolaethau llym ar y ffordd y caiff sgil-gynhyrchion anifeiliaid eu rheoli.

6.10 Mae gan y ddeddfwriaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 6.9 gwmpas eang, sy'n cynnwys unrhyw gynhyrchion anifeiliaid gan gynnwys cig, pysgod, llaeth ac wyau hefyd pan nad ydynt wedi'u bwriadu i gael eu bwyta gan bobl, gwastraff arlwyo a chynhyrchion eraill o darddiad anifeiliaid gan gynnwys crwyn, plu, gwlân, esgyrn, cyrn, a charnau. Mae'n rheoli'r defnydd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid fel, er enghraifft, bwyd anifeiliaid (gan gynnwys bwyd anifeiliaid anwes), gwrtaith neu ar gyfer cynhyrchion technegol ac yn gosod rheolau ar gyfer eu trawsnewid drwy gompostio a bionwy a'u gwaredu drwy rendro a llosgi. Ni ellir bwydo gwastraff arlwyo, gan gynnwys sgrapiau cegin (ac mae hyn yn cynnwys ceginau llysieuol), i dda byw. Dylid gwaredu unrhyw sgil-gynhyrchion

anifeiliaid yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

## 7. Eich rhwymedigaethau fel meddiannydd eiddo annomestig

Gofynion gwahanu meddiannydd

7.1 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion gwahanu'r meddiannydd pan fyddwch yn cyflwyno gwastraff i'w gasglu, gan gynnwys os byddwch yn ei gludo eich hun i'w gyflwyno i gyfleuster awdurdodedig.

7.2 O 6 Ebrill 2024 mlaen, mae’n rhaid i chi gyflwyno'r naw deunydd gwastraff ailgylchadwy penodedig ar gyfer eu casglu ar wahân mewn o leiaf chwe ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân a bennir ym mharagraff 4.4.

7.3 Mae hyn yn golygu, pan fydd eiddo’n cynhyrchu'r holl fathau o wastraff a nodir, bod rhaid ei gyflwyno i’w gasglu ar wahân, yn y man lleiaf, mewn chwe chynhwysydd ar wahân. Gall y cynwysyddion hyn fod yn finiau, yn fagiau, yn focsys, yn sgipiau neu'n fath arall o gynhwysydd fel y bo'n briodol, gan ystyried natur y gwastraff a gofynion eich casglwr gwastraff. Er enghraifft, efallai na fydd bagiau plastig hyblyg yn addas ar gyfer gwahanu eitemau ag ymylon miniog, neu sy'n drwm iawn. Mae'n dderbyniol defnyddio cynwysyddion sydd wedi'u hisrannu'n fewnol gan rwystr ffisegol parhaol, er enghraifft bin gyda dwy neu fwy o adrannau sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol. Mae'n rhaid i'r cynwysyddion a ddefnyddir fod yn ddigon gwydn i gynnal y gwahaniad gofynnol wrth i'r gwastraff gael ei drin a'i reoli'n ddiweddarach.

7.4 Argymhellir bod adrannau mewn cynhwysydd wedi'u gwneud o adeiladwaith solet yn hytrach na phlastig hyblyg sy'n debygol o rwygo'n agored, sy'n cynyddu'r risg y bydd y cynnwys yn cymysgu â ffrydiau gwastraff eraill. Pan fydd y ffrydiau gwastraff a gyflwynir ar wahân yn cael eu casglu, mae'n rhaid eu cadw ar wahân a heb eu cymysgu â ffrydiau eraill, nac unrhyw wastraff arall.

7.5 Byddem yn cynghori yn erbyn defnyddio “bagiau goroesi” (gweler yr Eirfa) i osod eitemau o ffrwd wastraff arall yn yr un cynhwysydd. Mae'n annhebygol y bydd bagiau goroesi’n ddigon cadarn i beidio â hollti ar agor wrth eu llwytho ar gerbyd, neu wrth eu cywasgu naill ai drwy ddulliau mecanyddol neu drwy bwysau'r sachau sydd wedi'u gosod ar eu pennau. O ganlyniad i hyn, mae arfer o'r fath yn cynyddu'n sylweddol y risg o gymysgu’r gwahanol ffrydiau gwastraff yn ddamweiniol. Felly, er enghraifft, y cyngor yw na ddylid gosod bag goroesi sy'n cynnwys plastig yn y cynhwysydd sy'n dal y ffrwd wydr, neu yn y cynhwysydd sy'n cynnwys y ffrwd papur a cherdyn. Fodd bynnag, gellid defnyddio bagiau goroesi i wahanu deunyddiau y gellir eu cyd-gymysgu, yn amodol ar gytundeb â'r casglwr sbwriel a phob rhan o'r gadwyn reoli. Er enghraifft, gellid gosod bag goroesi sy'n cynnwys cartonau yn y cynhwysydd sy'n dal y ffrwd cartonau, metel, plastig. Bydd eich casglwr gwastraff yn gallu eich cynghori.

7.6 Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau (fel y manylir ymhellach yn Atodiadau 1-6 y cod hwn) yn nodi'r is-ffracsiynau gwastraff sy'n ffurfio pob ffrwd wastraff

ailgylchadwy y mae'n rhaid ei chyflwyno ar wahân i'w chasglu. Bydd eich casglwr gwastraff yn gallu rhoi cyngor i chi am unrhyw eitemau neu ddeunyddiau gwastraff ychwanegol y gellir eu hailgylchu y tu hwnt i'r rhai a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Os mai dyma’r sefyllfa, rydych yn cael eich annog i ailgylchu'r deunyddiau hyn hefyd.

7.7 Mae'n rhaid i chi sicrhau bod yr eitemau pecynnu a roddir ym mhob ffrwd wastraff ailgylchadwy yn wag o'u cynnwys ac yn lân. Mae angen i eitemau eraill nad ydynt yn ddeunydd pecynnu fod yn rhydd o halogiad sylweddol. Mae'n debygol y bydd lefel yr halogiad derbyniol yn amrywio yn seiliedig ar ofynion gwahanol ailbroseswyr a dylid dilyn eu gofynion er mwyn osgoi cael casglwyr gwastraff yn gwrthod llwythi halogedig. Dylai eich casglwr gwastraff allu rhoi cyngor ar hyn.

7.8 O gofio y gallai fod angen storio cynwysyddion gwastraff mewn lleoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ystyrir ei bod yn arfer gorau defnyddio cynwysyddion y gellir eu cloi a sicrhau bod y rhain yn cael eu cadw dan glo i leihau'r risg o halogi damweiniol neu fwriadol.

7.9 Dylid hwyluso cydymffurfiaeth â'r gofynion gwahanu drwy ddarparu gwybodaeth glir i staff (gan gynnwys unrhyw gontractwyr) a darparu arwyddion clir yn egluro’r hyn y dylid ac na ddylid ei roi yn y gwahanol gynwysyddion gwastraff.

7.10 Gall y trefniadau rheoli gwastraff ar gyfer eich eiddo gael eu gwasanaethu gan gwmni rheoli cyfleusterau, a all fod yn gwasanaethu eiddo cyfagos hefyd. Dylech adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau gwastraff yn ddigonol i gyflawni eich cyfrifoldebau a bod y trefniadau casglu a nodir mewn unrhyw gontractau’n adlewyrchu'r gofynion gwahanu.

7.11 Efallai y bydd angen casgliadau gwastraff gweddilliol na ellir ei ailgylchu o hyd ochr yn ochr â chasglu gwastraff ailgylchadwy fel rhan o ateb rheoli gwastraff integredig cyffredinol.

<u>Pa wastraff ydw i'n gyfrifol amdano ar yr eiddo rwy’n ei feddiannu?</u>

7.12 Rydych yn gyfrifol am yr holl wastraff sy'n cael ei gyflwyno i'w gasglu o'ch eiddo. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wastraff a gynhyrchir gan staff, ymwelwyr a chontractwyr.

7.13 Os ydych yn fasnachwr sy'n gweithio mewn eiddo domestig, bydd unrhyw wastraff a gynhyrchir gennych yn ddarostyngedig i'r gofynion gwahanu lle caiff ei gyflwyno i'w gasglu o eiddo annomestig, hynny yw, os caiff gwastraff o'r gwaith a wneir mewn eiddo domestig ei gludo yn ôl i ddepo neu weithdy, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r gofynion gwahanu pan fyddwch yn ei gyflwyno i'w gasglu.

A oes rhaid i mi ddarparu bin ar wahân ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy yn fy eiddo?

7.14 Yn y man lle'r ydych yn cyflwyno eich gwastraff i'w gasglu (er enghraifft, casglu ymyl y ffordd), er mwyn cydymffurfio â'r gofynion gwahanu bydd angen cynhwysydd ar wahân arnoch ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy.

7.15 Nid yw hyn yn wir mewn perthynas â biniau mewnol ar gyfer meddianwyr, staff, ymwelwyr ac ati gan y cydnabyddir na fydd hyn yn ymarferol nac yn bosibl mewn rhai amgylchiadau. Ystyrir ei bod yn arfer da darparu cynwysyddion ar wahân ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy lle bynnag y cesglir gwastraff ar eich eiddo. Bydd hyn yn helpu i symleiddio unrhyw ofynion didoli pan gyflwynir y gwastraff hwnnw i'w gasglu a bydd yn lleihau'r risg o halogi rhwng gwahanol ffrydiau gwastraff ailgylchadwy hefyd. Bydd darparu cynwysyddion ar wahân ar gyfer pob ffrwd wastraff ailgylchadwy'n darparu dull cyson ledled Cymru hefyd, gan osgoi dryswch i staff ac ymwelwyr ar draws gwahanol eiddo a fydd yn cynyddu cyfradd yr ailgylchu o ansawdd uchel ac yn lleihau halogiad.

7.16 Os oes biniau gwastraff ar eich safle lle mae gwastraff o fwy nag un ffrwd wastraff ailgylchadwy yn gymysg, bydd angen i chi wahanu'r deunyddiau i'r ffrydiau ar wahân penodedig yn unol â'r gofynion gwahanu pan fyddwch yn eu cyflwyno i'w casglu.

Sut dylai fy ngwastraff gael ei gasglu?

7.17 Mae'r holl wastraff a gyflwynir i'w gasglu o adeiladau annomestig yn dod o dan y gofynion gwahanu ac felly mae'n cynnwys yr holl wastraff sy'n dod o dan y disgrifiadau o "wastraff masnachol" a "gwastraff diwydiannol", a rhywfaint o dan y disgrifiad o "wastraff cartref". Gallwch drefnu casglu eich gwastraff naill ai gan eich Awdurdod Lleol neu gasglwr gwastraff preifat.

7.18 Nid oes rhaid i chi gael contract gydag un endid casglu gwastraff i gasglu'r ystod lawn o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy o'ch eiddo. Gall eich casglwr gwastraff neu frocer is-gontractio casgliad ar wahân o rai o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân hyn, neu efallai y byddwch yn dymuno cael contractau ar wahân gyda mwy nag un endid casglu gwastraff. Mae hyn er mwyn eich galluogi i gael y trefniadau mwyaf buddiol yn ariannol ar gyfer casglu eich ffrydiau gwastraff ailgylchadwy.

7.19 Mae dyletswydd[8] ar Awdurdodau Lleol, os bydd meddiannydd eiddo yn eu hardal yn gwneud cais iddynt gasglu gwastraff masnachol o'r eiddo, i drefnu i'r gwastraff hwnnw gael ei gasglu. O dan y Rheoliadau mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gasglu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân. Gall Awdurdodau Lleol godi tâl am gasglu gwastraff masnachol.

7.20 Gallwch fynd â'ch ffrydiau gwastraff ailgylchadwy eich hun yn uniongyrchol i gyfleuster rheoli gwastraff sydd wedi'i awdurdodi i'w dderbyn cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio â gofynion y ddyletswydd gofal ar gyfer gwastraff a'ch bod

[8] Adran 45(1)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

wedi cofrestru â'r rheoleiddiwr fel cludydd gwastraff. Mae'n rhaid cyflwyno'r gwastraff ar wahân yn unol â'r gofynion gwahanu. Mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol naill ai'n gwahardd gwastraff masnachol neu ddiwydiannol rhag cael ei gludo i'w Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref, neu gallant ei dderbyn a chodi tâl.

Cadw cofnodion i ddangos cydymffurfiaeth

7.21 Fel y rheoleiddiwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwastraff yn cael ei gyflwyno i'w gasglu, ei gasglu a'i drin yn unol â gofynion y Rheoliadau, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ymweld â chi neu gysylltu â chi i wirio eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion newydd hyn.

7.22 Efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth ynghylch eich trefniadau casglu gwastraff ac mae'n ddoeth cadw cofnodion perthnasol i helpu i ddangos cydymffurfiaeth i'r rheoleiddiwr.

7.23 Gallai'r dystiolaeth hon fod yn ddogfennau y mae gennych ofyniad cyfreithiol eisoes i'w cadw, fel o dan y ddyletswydd gofal ar gyfer gwastraff sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gynhyrchu a chadw nodiadau trosglwyddo gwastraff, a fydd yn dangos pryd, sut a phwy a gasglodd y gwastraff a’r mathau o wastraff. Mae'n rhaid cadw’r nodiadau am o leiaf ddwy flynedd. Gallai tystiolaeth arall gynnwys cytundebau neu gontractau a allai fod gennych ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff, neu'r contractau sydd gennych gyda'ch cwsmeriaid os ydych yn gasglwr, sy'n helpu i ddangos bod gwastraff yn cael ei gasglu ar wahân mewn ffordd sy'n cydymffurfio.

Gwastraff bwyd

7.24 Mae'n rhaid i unrhyw eiddo annomestig sy'n cynhyrchu 5 cilogram neu fwy o wastraff bwyd mewn unrhyw wythnos (fel cyfnod o saith diwrnod yn olynol) ei wahanu a'i gyflwyno i gael ei gasglu a'i ailgylchu ar wahân (sy'n cynnwys treulio anaerobig). Mae'r rhwymedigaeth hon nid yn unig yn gymwys i fusnesau bwyd ond i holl feddianwyr eiddo annomestig. Mae hyn yn cynnwys gwastraff bwyd o ganlyniad i staff neu ymwelwyr yn dod â'u bwyd eu hunain i mewn eiddo a'i fwyta yno, ar yr amod bod yr eiddo’n cynhyrchu 5 cilogram neu fwy yr wythnos o wastraff bwyd.

7.25 Dylai meddianwyr eiddo sy'n penderfynu nad yw’r rhwymedigaeth hon yn gymwys iddynt (ar y sail eu bod o dan y terfyn pwysau) adolygu hyn o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan fo newidiadau sylweddol ar eu heiddo, er enghraifft cynnydd yn y defnydd o eiddo, lefelau staffio neu nifer yr ymwelwyr. Fe'ch cynghorir i gadw cofnodion perthnasol i helpu i ddangos cydymffurfiaeth i'r rheoleiddiwr.

7.26 At ddibenion y Rheoliadau, nid yw gwastraff bwyd yn cynnwys sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n cynnwys deunydd Categori 1 fel y'i rhestrir yn Erthygl 8 (mae hyn yn cynnwys gwastraff arlwyo rhyngwladol), na deunydd Categori 2 fel y'i rhestrir yn Erthygl 9, o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009. Ni ddylid rhoi hwn yn y ffrwd wastraff bwyd a dylid ei waredu yn hytrach yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol

ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

7.27 Ar gyfer bwyd dros ben sy'n dal i fod yn ddiogel i'w fwyta gan bobl, dylid manteisio ar gyfleoedd iddo gael ei ailddosbarthu i'r rhai mewn tlodi bwyd yn unol â chanllawiau statudol yr hierarchaeth wastraff[9]. Dylid cyflwyno bwyd dros ben nad yw'n ddiogel i'w fwyta gan bobl i'w gasglu ar wahân fel gwastraff bwyd, yn unol â'r Rheoliadau.

7.28 Ar gyfer gwastraff bwyd sy'n dal yn ei ddeunydd pecynnu, dylid gwahanu'r gwastraff bwyd oddi wrth y deunydd pecynnu. Yna dylid rhoi pob deunydd yn y cynhwysydd ffrwd wastraff ailgylchadwy perthnasol yn unol â'r gofynion gwahanu. Lle nad yw'n rhesymol ymarferol dad-becynnu gwastraff bwyd fel hyn, gellir gosod y gwastraff bwyd sy'n dal yn ei ddeunydd pecynnu sylfaenol (hynny yw, yr haen o ddeunydd pecynnu sydd agosaf at y cynnyrch) yn y ffrwd gwastraff bwyd, ar yr amod bod (a) eich casglwr gwastraff bwyd yn cytuno i gasglu'r gwastraff ar y sail hon a (b) bydd y gwastraff bwyd wedi'i becynnu'n cael ei anfon i gyfleuster priodol i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu (sy'n cynnwys compostio a threulio anaerobig). Dylid tynnu pecynnu eilaidd a phecynnu cludo fel llewys cardbord a bocsys a'u hailgylchu ar wahân. Mae'n bwysig bod meddianwyr yn cydymffurfio â gofynion eu casglwyr gwastraff. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar gasglwr gwastraff i gytuno i gasglu bwyd wedi'i becynnu yn y ffordd hon.

7.29 Y man cychwyn yw y dylid dad-becynnu pob gwastraff bwyd yn iawn cyn ei gyflwyno. Dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y mae cyfyngiadau, er enghraifft o ran gofod neu ofynion hylendid ac ati, yn golygu nad yw dad-becynnu'n rhesymol ymarferol. Mae gwastraff bwyd wedi'i becynnu yn arwain at ailgylchu o ansawdd is, felly er mwyn ailgylchu i'r safon uchaf bosibl, dylai'r meddiannydd ddad-becynnu gwastraff bwyd yn y tarddiad pan fo modd. Pan fydd meddiannydd yn ceisio dibynnu ar yr eithriad hwn, yr arfer gorau yw cadw cofnodion o'r broses gwneud penderfyniadau sy'n sail i hyn, yn ogystal â thystiolaeth bod eich casglwr gwastraff bwyd wedi cytuno i dderbyn y gwastraff ar y sail hon.

7.30 Efallai y byddwch yn gallu compostio'ch gwastraff bwyd eich hun neu ei dreulio'n anaerobig ar eich eiddo ar yr amod eich bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ac unrhyw eithriadau perthnasol, a gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ac unrhyw reoliadau perthnasol eraill.

## Gofynion cyfreithiol eraill ar gyfer gwastraff bwyd

7.31 Mae Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023 yn gwneud darpariaeth, o 6 Ebrill 2024 ymlaen, mewn perthynas â gwahardd gwaredu gwastraff bwyd i garthffos o dan adran 34D o'r EPA. Mae gweithredu'n groes i'r gwaharddiad hwn yn drosedd o dan adran 34D

[9] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/arweiniad-ynghylch-gweithredur-hierarchiaeth-gwastraff.pdf.

o’r EPA. Mae adran 34D yn ei gwneud yn drosedd i feddiannydd eiddo annomestig yng Nghymru i wneud y canlynol:

(a) gwaredu gwastraff bwyd a gynhyrchir ar yr eiddo neu a gludwyd i'r eiddo; neu

(b) achosi'n fwriadol neu ganiatáu'n fwriadol i wastraff bwyd a gynhyrchir ar yr eiddo neu a gludwyd i'r eiddo gael ei waredu,

i garthffos gyhoeddus neu garthffos neu ddraen sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus.

7.32 Mae'r gwastraff bwyd na ddylid ei waredu i'r garthffos yn wastraff a reolir sydd:

(a) ar unrhyw adeg wedi bod yn fwyd (nad yw’n cynnwys diod at y diben hwn) a fwriadwyd i'w fwyta gan bobl; neu

(b) yn wastraff bioddiraddadwy sy'n deillio o brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod,

ond nad yw'n cynnwys gwastraff sydd wedi ei gymysgu â dŵr neu unrhyw hylif arall o ganlyniad i ddefnyddio’r dŵr neu'r hylif i lanhau unrhyw le neu offer a ddefnyddir wrth brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod.

7.33 Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio cyfarpar gwaredu gwastraff bwyd (er enghraifft mwydwyr) neu fathau eraill o gyfarpar trin gwastraff bwyd (er enghraifft treuliwr dad-ddyfrio neu ensymau) mewn eiddo annomestig i waredu gwastraff bwyd neu hylif sy'n deillio o wastraff bwyd i ddraen neu garthffos.

7.34 Gall gosod trapiau saim helpu i atal gollwng saim a gwastraff bwyd tebyg yn ddamweiniol i'r garthffos. Mae Adran 111 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon caniatáu i unrhyw ddeunydd, a all ymyrryd â llif rhydd cynnwys y garthffos neu'r draen neu a all effeithio’n niweidiol ar driniaeth a gwaredu ei chynnwys, i basio i lawr drwy unrhyw ddraen neu garthffos sy'n cysylltu â charthffos gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys braster, olew a saim.

7.35 Bydd yr Awdurdod Lleol yn gyfrifol am reoleiddio'r gwaharddiad ar waredu gwastraff bwyd i garthffos.

<u>Gwybodaeth ychwanegol</u>

7.36 O dan ofynion y ddyletswydd gofal gyfreithiol ar gyfer gwastraff, mae gennych gyfrifoldeb i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, pan fyddwch yn trosglwyddo gwastraff i ddeiliad gwastraff arall, bod y gwastraff yn cael ei reoli'n gywir ar ei daith gyfan i gael ei waredu neu ei adfer. Dylech ofyn i'ch casglwr gwastraff ddarparu gwybodaeth i chi am gyrchfan derfynol y deunyddiau y byddwch yn eu gwahanu i'w hailgylchu, a sut maent wedi cael eu hailgylchu, eu compostio neu eu paratoi i'w hailddefnyddio. Os ydych yn gorff sector cyhoeddus yng Nghymru gallai hyn eich helpu i gyfrifo rhai o'ch allyriadau carbon Cwmpas 3 mewn perthynas â chyrraedd eich targed sero net ar gyfer 2030.

Crynodeb o'r camau allweddol y'ch cynghorir i'w cymryd:

7.37 Fel meddiannydd eiddo annomestig, yn ogystal â chydymffurfio â gofynion gwahanu'r meddiannydd, fe'ch cynghorir i wneud y canlynol ar eich eiddo:

- Cymryd camau digonol i gynnal ansawdd y deunyddiau ar wahân penodedig a gyflwynir i'w casglu ar wahân er mwyn hwyluso ailgylchu o ansawdd uchel, fel sicrhau bod cynwysyddion pecynnu'n wag ac nad yw eitemau wedi'u halogi'n sylweddol. Dylech osgoi malu gwydr lliw cymysg yn fecanyddol yn y tarddiad cyn ei gasglu gan ei fod yn arwain at gyfran sylweddol o ronynnau mân sy'n rhy fach i'w didoli yn ôl lliw. Mae lefel y deunydd a gollir ac y gellid ei ddefnyddio yn y diwydiant aildoddi gwydr yn sylweddol.
- Cynnal deialog dda gyda'ch casglwyr gwastraff, fel eich bod chi ac unrhyw staff yn ymwybodol o unrhyw is-ffracsiynau ychwanegol y gellir eu gwahanu i'w hailgylchu, a'r rhai y dylid eu rhoi yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol cymysg.
- Darparu hyfforddiant i'ch staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth sydd angen ei wneud i fodloni'r gofynion gwahanu, gan gynnwys yr angen i eitemau pecynnu fod yn wag o'u cynnwys a bod unrhyw weddillion wedi'u glanhau, ac i eitemau eraill nad ydynt yn ddeunydd pecynnu fod yn rhydd o halogiad sylweddol.
- Sicrhau bod gwybodaeth effeithiol, hygyrch a chynhwysol ac arwyddion clir yn cael eu darparu i staff ac ymwelwyr er mwyn sicrhau eu bod yn deall y deunyddiau gwastraff y dylid ac na ddylid eu gwahanu ar gyfer ailgylchu.
- Cadw cofnod o'r gweithdrefnau gweithredu a'r dogfennau eraill sydd gennych ar waith ar gyfer staff, contractwyr ac ymwelwyr er mwyn sicrhau bod yr eiddo rydych yn ei feddiannu'n cydymffurfio â'r gofynion gwahanu pan gyflwynir gwastraff i'w gasglu. Gallai'r cofnodion hyn helpu yn ystod archwiliad gan y rheoleiddiwr.

## 8. Eich rhwymedigaethau fel rhywun sy'n casglu, derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff a reolir yng Nghymru

8.1 Fel y ddolen rhwng cynhyrchwyr gwastraff a'r sector ailbrosesu, mae gennych rôl hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ailgylchu'n cael eu cynllunio a'u gweithredu i greu gwastraff o ansawdd digonol i gefnogi'r canlyniadau ailgylchu o ansawdd uchel sy'n flaenoriaeth.

<u>Gofynion gwahanu'r casglwr</u>

8.2 Mae'n rhaid i'r rhai sy'n casglu, neu'n trefnu i gasglu, un neu ragor o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy gydymffurfio â gofynion gwahanu'r casglwr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gasglu pob ffrwd wastraff ailgylchadwy ar wahân (hynny yw, ar wahân i ffrydiau gwastraff ailgylchadwy eraill) ac ar wahân i fathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill. Mae'n rhaid i'r modd o gasglu a thrin y gwastraff wedi hynny fod yn ddigonol i sicrhau bod gwahanu yn cael ei gynnal ar hyd y broses. Gallai hyn fod o fewn adran hunangynhwysol ar wahân ar gerbyd aml-adran, neu mewn cerbyd adran unigol gan ddefnyddio cynwysyddion addas ac ystyried natur y gwastraff. Er enghraifft, efallai na fydd bagiau plastig hyblyg yn addas ar gyfer gwahanu eitemau ag ymylon miniog, neu sy'n drwm iawn. Mae'n rhaid i'r cynwysyddion a ddefnyddir fod yn ddigon gwydn i gynnal y gwahanu gofynnol wrth i'r gwastraff gael ei drin a'i reoli'n ddiweddarach.

8.3 Argymhellir bod adrannau o fewn cerbyd wedi'u gwneud o adeiladwaith cadarn, sy'n lleihau'r risg y bydd y cynnwys yn cymysgu â ffrydiau gwastraff eraill.

8.4 Wrth egluro gofynion casglu i gwsmeriaid, byddem yn cynghori yn erbyn defnyddio “bagiau goroesi” (gweler yr Eirfa) i osod eitemau o fwy nag un ffrwd wastraff yn yr un cynhwysydd. Mae'n annhebygol y bydd bagiau goroesi'n ddigon cadarn i beidio â hollti ar agor wrth eu llwytho ar gerbyd, neu wrth eu cywasgu naill ai drwy ddulliau mecanyddol neu drwy bwysau'r sachau sydd wedi'u gosod ar eu pennau. O ganlyniad i hyn, mae arfer o'r fath yn cynyddu'n sylweddol y risg o gymysgu'r gwahanol ffrydiau gwastraff yn ddamweiniol. Er enghraifft, y cyngor yw na ddylid gosod bag goroesi sy'n cynnwys plastig yn y cynhwysydd sy'n dal y ffrwd wydr, neu yn y cynhwysydd sy'n cynnwys y ffrwd papur a cherdyn. Fodd bynnag, gellid defnyddio bagiau goroesi i wahanu deunyddiau y gellir eu cyd-gymysgu. Er enghraifft, gellid gosod bag goroesi sy'n cynnwys cartonau yn y cynhwysydd sy'n dal y ffrwd cartonau, metel a phlastig.

8.5 O 6 Ebrill 2024 ymlaen, rhaid i chi gasglu'r deunyddiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a nodir yn adran 4. Mae rhai o'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy'n cynnwys mwy nag un math o ddeunydd gwastraff (er enghraifft cartonau, metel a phlastig). Os felly, gallwch ddewis casglu'r deunyddiau hyn ar wahân yn hytrach na'u casglu wedi'u cymysgu, ond os ydych yn dymuno gwneud hynny, bydd angen cytuno ar hyn gyda meddiannydd yr eiddo gan nad yw unrhyw wahanu pellach yn orfodol o dan y Rheoliadau.

8.6 Nid oes angen casglu gwastraff bwyd ar wahân o eiddo annomestig sy'n cynhyrchu llai na 5 cilogram yr wythnos (am unrhyw gyfnod o saith diwrnod yn olynol). Yn yr achos hwn, gellir yn hytrach ei gasglu yn y cynhwysydd gwastraff gweddilliol cymysg. Gallwch barhau i gynnig gwasanaeth casglu gwastraff bwyd ar wahân i eiddo sy'n dod o dan y trothwy 5 cilogram. Fodd bynnag, y meddiannydd fydd yn penderfynu a yw am fanteisio ar y cynnig.

8.7 Oni bai eich bod yn Awdurdod Lleol, nid oes rhaid i chi gasglu'r amrywiaeth lawn o ffrydiau gwastraff ailgylchadwy. Efallai y byddwch am is-gontractio'r gwaith o gasglu rhai ffrydiau gwastraff ailgylchadwy ar wahân, neu efallai y bydd y meddiannydd yn dymuno cael contractau ar wahân gyda mwy nag un casglwr gwastraff. Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd[10] i drefnu casglu gwastraff masnachol os yw meddiannydd yn gofyn iddynt wneud hynny yn eu hardal. Wrth wneud hynny mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion gwahanu sydd yn y Rheoliadau, sy'n dweud bod rhaid iddynt drefnu gwasanaeth casglu ar wahân ar gyfer yr holl ffrydiau gwastraff ailgylchadwy y mae'r meddiannydd yn gofyn iddynt eu casglu. Gallant drefnu'r casgliad yn uniongyrchol eu hunain, neu gallant wneud trefniadau ar gyfer y casgliadau hyn drwy drydydd parti. Nid oes rhaid iddynt gasglu'r holl ffrydiau gwastraff ailgylchadwy os na ofynnir iddynt wneud hynny gan y meddiannydd.

8.8 Dylai system ailgylchu sy'n cael ei gweithredu'n dda sicrhau cyfradd gasglu uchel gydag ychydig iawn, os o gwbl, o'r deunyddiau ailgylchadwy penodedig ar ôl yn y ffrwd weddilliol.

8.9 Gallwch barhau i ddarparu casgliadau gwastraff gweddilliol os oes eu hangen ar eich cwsmer ond ni ddylai'ch cwsmer roi unrhyw un o'r is-ffracsiynau gwastraff ailgylchadwy (gweler Atodiadau 1-6 y cod hwn ac Atodlen 1 i'r Rheoliadau) yn y ffrwd wastraff weddilliol.

8.10 Wrth gasglu gwastraff, efallai y bydd yn amlwg bod y meddiannydd yn rhoi gwastraff ailgylchadwy yn y ffrwd weddilliol, neu'n rhoi eitemau ailgylchadwy yn y ffrwd gwastraff ailgylchadwy anghywir. Nid yw arfer o'r fath yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau a dylech gynghori'r meddiannydd yn ysgrifenedig o'i ddyletswyddau o dan y Rheoliadau ac awgrymu y dylai ofyn am gymorth pellach os oes angen. Os nad yw'r cwsmer yn cymryd camau prydlon i unioni problemau cydymffurfio, dylech wrthod casglu unrhyw gynwysyddion gwastraff nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion.

<u>Gofynion gwahanu'r trinwyr</u>

8.11 Mae'n rhaid i'r rhai sy'n derbyn, cadw, trin neu gludo gwastraff gydymffurfio â gofynion gwahanu'r triniwr. Mae hyn yn golygu na ddylent gymysgu'r ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gesglir ar wahân gydag unrhyw ffrwd wastraff ailgylchadwy arall neu gyda mathau eraill o wastraff neu sylweddau neu eitemau eraill.

[10] O dan adran 45(1)(b) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

8.12 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio â gofynion gwahanu'r triniwr tra bod y gwastraff yn eich meddiant.

8.13 Nid oes rhaid ail-ddidoli gwastraff sy'n cael ei fewnforio i Gymru o wlad arall yn y DU sydd wedi'i wahanu yn unol â'r gofynion gwahanu yn y gwledydd hynny pan fydd yn cyrraedd Cymru; fodd bynnag, dylid cadw lefel y gwahanu ar y pwynt cyrraedd yn y man lleiaf.

Beth os yw'r ffrwd wastraff ailgylchadwy wedi'i halogi'n sylweddol?

8.14 Os cyflwynir ffrwd wastraff ailgylchadwy i'w chasglu sydd wedi'i halogi gymaint (naill ai os yw'r deunyddiau ailgylchadwy wedi'u halogi'n sylweddol a/neu os yw eitemau anghywir wedi'u gosod yn y cynhwysydd) fel y byddai'n annerbyniol i'r ailbrosesydd ei hailgylchu, dylech wrthod casglu'r ffrwd wastraff honno gan y meddiannydd ac egluro wrth y meddiannydd pam nad ydych wedi ei chasglu.

8.15 Fe'ch cynghorir i gael gweithdrefnau ar waith ar gyfer ymdrin ag unrhyw halogi yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gesglir. Fe'ch cynghorir i gadw cofnod o'r gweithdrefnau hyn i'w dangos i'r rheoleiddiwr, os gofynnir i chi wneud hynny.

Gwaharddiad ar gymysgu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy gwahanol ar ôl eu casglu

8.16 Fe'ch gwaharddir rhag cymysgu ffrydiau gwastraff ailgylchadwy sydd wedi'u gwahanu gyda'i gilydd, neu gyda mathau eraill o wastraff. Mae dwy ffrwd wastraff ailgylchadwy sy'n cynnwys mwy nag un deunydd. Y rhain yw:

- cartonau a'u tebyg, metel a phlastig;
- papur a cherdyn.

8.17 Pan gyflwynir y deunyddiau unigol ar wahân, yn hytrach nag wedi'u cyd-gymysgu, gellir cymysgu'r rhain wedyn o fewn yr un ffrwd wastraff ailgylchadwy. Er enghraifft, os yw meddiannydd yn cyflwyno ei eitemau gwastraff cartonau, metel a phlastig mewn tri chynhwysydd ar wahân, caniateir i gasglwr gasglu'r tri deunydd yn yr un cynhwysydd neu yn yr un adran o'r cerbyd.

8.18 Ystyr dim "cymysgu" yw na chaiff eitemau gwastraff mewn un ffrwd wastraff ailgylchadwy gyffwrdd yn ffisegol ag unrhyw eitemau gwastraff o ffrwd ailgylchadwy wahanol. Mae angen gwahanu pob ffrwd wastraff ailgylchadwy yn ddigonol fel nad ydynt yn dod i gysylltiad â'i gilydd neu â mathau eraill o wastraff. Mae hyn yn gymwys drwy gadwyn warchodaeth gyfan y gwastraff o'r cyflwyno i'r ailbrosesu.

8.19 Wrth gwrs, caniateir cymysgu gwastraff a gesglir o sawl eiddo lle mae'r gwastraff hwnnw i gyd yn perthyn i'r un ffrwd wastraff ailgylchadwy

8.20 Ni fwriedir i'r Rheoliadau atal cymysgu gwastraff bwyd â mathau eraill o ddeunyddiau bioddiraddadwy addas yn ystod treulio anaerobig neu gompostio cyn belled â bod yr holl ofynion rheoleiddio angenrheidiol yn cael eu bodloni.

Cyngor ychwanegol

8.21 Argymhellir eich bod yn darparu gwybodaeth i'r meddiannydd am gyrchfan derfynol y deunyddiau rydych yn eu casglu i'w hailgylchu, a sut maent wedi cael eu hailgylchu. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y ddyletswydd gofal ar gyfer gwastraff hefyd. Gallai hyn helpu cyrff yn y sector cyhoeddus yn benodol i gyfrifo rhai o'u hallyriadau carbon Cwmpas 3 mewn perthynas â'u targed sero net erbyn 2030.

8.22 Fe'ch cynghorir i ystyried unrhyw effeithiau andwyol o ganlyniad i ddefnyddio cywasgu mewn cerbydau casglu gwastraff. Gall cywasgu leihau ansawdd deunyddiau ailgylchadwy. Er enghraifft, gall cywasgu gael yr effeithiau canlynol:

- lleihau maint gronynnau, gan arwain at ddeunydd mwy mân a allai fod yn anodd ei ddal i'w ailgylchu – gall hyn fod yn arbennig o broblemus o ran ailgylchu gwydr;
- eitemau a ganiateir i'w casglu wedi'u cyd-gymysgu (er enghraifft cartonau, metel a phlastig) yn cael eu cywasgu gyda'i gilydd fel eu bod yn anodd eu gwahanu;
- pan fo gwahanol ffrydiau gwastraff ailgylchadwy'n cael eu cludo gyda'i gilydd mewn cerbyd sy'n defnyddio cywasgu, mae cywasgu'n cynyddu'n sylweddol y risg y bydd y gwahanol ffrydiau gwastraff ailgylchu'n cymysgu gan fod dulliau cyffredin o wahanu (er enghraifft bagiau plastig) yn annhebygol o fod yn ddigon cadarn i wrthsefyll cywasgu.

Crynodeb o'r camau ychwanegol y'ch cynghorir i'w cymryd:

8.23 Yn ogystal â chydymffurfio â gofynion gwahanu'r triniwr, fe'ch cynghorir i ddarparu'r canlynol i'ch cwsmer:

- Gwasanaeth casglu wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion eich cwsmer, gyda chasgliadau dibynadwy a rheolaidd.
- Gwybodaeth am y mathau o ddeunyddiau ac is-ffracsiynau a restrir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau sy'n ffurfio pob ffrwd wastraff ailgylchadwy y gellir eu derbyn i'w hailgylchu ym mhob cynhwysydd.
- Cyngor ar lefel yr halogiad sy'n dderbyniol i chi a'r ailbrosesydd sy'n ailgylchu'r deunyddiau gwastraff.
- Gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r gwasanaeth yn effeithiol, er enghraifft, cyflwyno deunyddiau glân a sych (er enghraifft cardbord yn gwlychu os caiff ei osod y tu allan heb ei orchuddio) a'r camau yr argymhellir eu cymryd i osgoi halogi.

- Labeli clir ar gynhwysyddion ailgylchu i nodi pa ddeunydd y dylid ei gynnwys a'r hyn y dylid ei eithrio.
- System o archwiliadau ar hap i asesu deunydd a gesglir am ddeunyddiau nad ydynt wedi'u targedu ac na ellir eu hailgylchu, a rhoi adborth ar unrhyw broblemau sy’n dod i'r amlwg i'r meddiannydd gyda chyngor priodol – yn unol â'r gweithdrefnau y cynghorir i chi eu cael ar waith ar gyfer ymdrin ag unrhyw halogiad yn y ffrydiau gwastraff ailgylchadwy a gesglir.
- Cyngor i gwsmeriaid os nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion gwahanu, lle os nad oes camau prydlon yn cael eu cymryd gan y cwsmer i unioni problemau cydymffurfio, byddwch yn gwrthod casglu unrhyw wastraff nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion.
- Gwybodaeth am sut bydd pob ffrwd wastraff ailgylchadwy’n cael ei rheoli, a sut y bydd yn cael ei hailgylchu.

## 9. Geirfa

**Ailbrosesydd** – mae’n cyflawni'r gweithgaredd o ailgylchu, hynny yw trawsnewid gwastraff yn gynnyrch, deunydd neu sylwedd nad yw’n cael ei ddosbarthu fel gwastraff mwyach.

**Ailgylchu dolen agored** – lle mae deunydd gwastraff naill ai (a) yn disodli'r defnydd o fersiwn grai o ddeunydd gwahanol mewn cynnyrch newydd gwahanol neu (b) yn disodli'r defnydd o ddeunydd carbon corfforedig is a/neu le na ellir ailgylchu'r cynnyrch newydd ei hun ar ôl ei ddefnyddio, gan golli'r deunydd o'r gadwyn gyflenwi. Yn aml, mae ailgylchu dolen agored yn gysylltiedig â dirywiad yn y deunydd sy'n cael ei ailgylchu. Cyfeirir at ailgylchu dolen agored fel isgylchu hefyd.

**Ailgylchu dolen gaeedig** – proses lle mae deunydd gwastraff: (a) yn cael ei ailgylchu'n gynnyrch newydd sydd â swyddogaeth debyg; (b) yn cael ei ddefnyddio yn lle fersiwn grai o’r un deunydd mewn cynnyrch newydd gwahanol; neu (c) yn disodli deunydd crai carbon corfforedig uwch, a lle gall y cynnyrch newydd ei hun gael ei ddefnyddio, ei waredu a'i ddal, i'w ailgylchu eto, gan gylchu'r deunydd yn barhaus drwy'r gadwyn gyflenwi.

Mae enghreifftiau o ailgylchu dolen gaeedig o safon uchel yn cynnwys:
(a) defnyddio ysgyrion gwydr wedi'u hailgylchu mewn gwaith ail-doddi i greu cynhyrchion gwydr newydd yn hytrach na'u defnyddio fel agregau yn y diwydiant adeiladu;

DRAFT

(b) defnyddio plastig wedi'i ailgylchu i gynhyrchu cynwysyddion bwyd a diod newydd yn hytrach na chynhyrchu cynhyrchion adeiladu o bolymerau plastig cymysg na ellir eu hailgylchu'n ymarferol ar ddiwedd eu hoes;
(c) defnyddio papur wedi'i ailgylchu i wneud cynhyrchion papur newydd yn hytrach na defnyddiau eraill fel sarn anifeiliaid.

**Ailgylchu o ansawdd uchel** – mae'n ofynnol, ar hyd y gadwyn casglu a phrosesu ailgylchu, bod nodweddion penodol y deunydd (er enghraifft y polymer, neu'r gwydr, neu'r ffibr papur neu'r metel) yn cael eu cadw neu eu hadfer er mwyn gwneud y gorau o'u potensial i gael eu hailddefnyddio yn yr economi gylchol mewn ffordd sy'n sicrhau'r arbedion allyriadau carbon mwyaf posibl hefyd.

**Allyriadau carbon Cwmpas 3** – Mae Safon Gorfforaethol y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr byd-eang yn categoreiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr cwmni yn dri "chwmpas". Mae allyriadau Cwmpas 1 yn allyriadau uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i'r cwmni neu'n cael eu rheoli ganddo. Mae allyriadau Cwmpas 2 yn allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu ynni a brynir. Mae allyriadau Cwmpas 3 i gyd yn allyriadau anuniongyrchol (heb eu cynnwys yng Nghwmpas 2) sy'n digwydd yng nghadwyn gwerth y cwmni sy'n adrodd, gan gynnwys allyriadau i fyny ac i lawr y gadwyn gyflenwi**.**

**Bag goroesi neu sach oroesi** – bag neu sach wedi'i selio a ddefnyddir weithiau i wahanu ffrydiau gwastraff gwahanol fel y gallant gael eu rhoi gyda deunyddiau gwastraff eraill yn yr un bin, neu eu casglu a'u cludo gyda ffrydiau gwastraff eraill mewn cerbyd casglu. Yna mae'r bagiau goroesi'n cael eu tynnu yn y broses ddidoli, fel y gellir gwahanu'r deunyddiau ynddynt yn hawdd. Maent wedi'u gwneud o bolythen neu bolypropylen fel arfer. Fodd bynnag, maent yn dueddol o dorri os yw'r bagiau sydd wedi'u llenwi'n cael eu taflu i gefn cerbyd casglu gwastraff, neu os ydynt yn cael eu pentyrru ar ben ei gilydd neu os defnyddir cywasgu ffisegol. Mae hyn wedyn yn cymysgu'r cynnwys.

**Cartonau** – pecynnu cyfansawdd seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynnu sydd wedi'i wneud o bapur-fwrdd neu ffibrau papur, wedi'i lamineiddio â phlastig polythen neu bolypropylen dwysedd isel, ac y gall fod iddo haenau o ddeunyddiau eraill hefyd, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw, a ddefnyddir i becynnu cynhyrchion bwyd fel llaeth, dewisiadau amgen yn lle llaeth, sudd ffrwythau, cawl, tomatos wedi'u torri a ffacbys.

**Cod Adnabod Resin** – mae codau 1 i 7 yn nodi mathau penodol o bolymer plastig fel a ganlyn:
1 - polyethylen tereffthalad (PET), er enghraifft poteli diodydd plastig;
2 - polyethylen dwysedd uchel (HDPE), er enghraifft llawer o boteli llaeth;
3 - polyfinyl clorid (PVC), er enghraifft pibellau a fframiau ffenestri uPVC;
4 - polyethylen dwysedd isel (LDPE), er enghraifft llawer o fagiau plastig;
5 - polypropylen (PP), er enghraifft rhai cynwysyddion bwyd;
6 - polystyren (PS), er enghraifft rhai mathau o offer plastig;
7 - plastigau eraill (ARALL)/(PLA), neu gymysgedd o blastigau, er enghraifft bioblastigau, plastigau cyfansawdd (fel pecynnau creision), neu bolycarbonad.

DRAFT

Mae'r Codau Adnabod Resin yn cael eu gweinyddu gan ASTM International, sefydliad safonau rhyngwladol.

**Cynhwysydd** – mae'n dal neu'n storio gwastraff o fewn rhwystr ffisegol sy'n ei atal rhag gollwng neu ddianc. Caiff cynwysyddion gwastraff eu gwneud o blastig neu fetel fel arfer. Mae cynwysyddion yn cynnwys, er enghraifft, bocsys (gyda neu heb gaead, biniau olwyn, basgedi neu gewyll, bagiau plastig a sgipiau.

**Cynnyrch nas gwerthwyd** – cynnyrch defnyddwyr heb ei ddefnyddio, naill ai mewn ffatri, safle manwerthu, cyfanwerthwr, warws neu unrhyw safle arall, sydd heb ei werthu i gwsmer neu sydd wedi'i werthu i gwsmer ac wedi'i ddychwelyd ganddo.

**Deunydd gwastraff** (gweler "is-ffracsiwn gwastraff", "gwastraff" a "ffrwd wastraff" hefyd) - diffinnir yn fras yn ôl y math o ddeunydd y mae wedi'i wneud ohono – er enghraifft gwydr, metel, plastig, papur a gwastraff bwyd. Mewn rhai achosion gall deunydd gwastraff fod yn fath o gynnyrch – offer trydanol neu electronig (EEE) neu decstilau. Mae gan bob un o'r deunyddiau hyn is-ffracsiynau.

**EPA** – Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Ffrwd wastraff** (gweler "deunydd gwastraff" ac "is-ffracsiwn gwastraff" hefyd) – categori, neu gategorïau, o ddeunyddiau gwastraff sy'n cael eu hystyried yn addas i'w casglu mewn un cynhwysydd.

**Gwastraff** – unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r meddiannydd yn ei daflu, yn bwriadu ei daflu neu mae'n ofynnol iddo ei daflu.

**Gwastraff a Reolir** - diffinnir yn adran 75(4) o'r EPA fel gwastraff cartref, diwydiannol a masnachol neu unrhyw wastraff o'r fath. Am ragor o fanylion gweler adran 75 o'r EPA ac is-ddeddfwriaeth – er enghraifft Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

**Gwastraff cartref** – gweler adran 75 o'r EPA ac is-ddeddfwriaeth gymwys – er enghraifft Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

**Gwastraff diwydiannol** – gweler adran 75 o'r EPA ac is-ddeddfwriaeth gymwys – er enghraifft Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

**Gwastraff masnachol** – gweler adran 75 o'r EPA ac is-ddeddfwriaeth gymwys – er enghraifft Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

**Is-ffracsiwn/Is-ffracsiwn gwastraff** (gweler "deunydd gwastraff" a "ffrwd wastraff" hefyd) – mae'n cyfeirio at y mathau gwahanol o eitemau gwastraff sy'n ffurfio pob ffrwd wastraff unigol. Er enghraifft, mae plastig yn cynnwys is-ffracsiynau ailgylchadwy fel poteli, potiau, tybiau a hambyrddau sy'n cynnwys PET, HDPE neu PP (gweler "Codau Adnabod Resin") ac is-ffracsiynau na ellir eu hailgylchu fel eitemau sy'n cynnwys PVC neu PS. Mae'r Atodlen i'r Rheoliadau ac Atodiadau'r cod hwn yn nodi'r is-ffracsiynau gwastraff sy'n ffurfio pob llif gwastraff unigol.

DRAFT

**Llygryddion Organig Parhaus (POPs)** – cemegau sydd â phriodweddau gwenwynig sy'n aros yn yr amgylchedd am amser maith, yn cronni mewn cadwyni bwyd ac yn gallu niweidio iechyd pobl a'r amgylchedd. Os cânt eu rhyddhau, mae'r llygryddion hyn yn gallu symud ar draws ffiniau ymhell o'u tarddiad – trwy'r aer, dŵr a rhywogaethau mudol – ac maent yn cronni mewn rhanbarthau lle nad ydynt wedi eu defnyddio na'u cynhyrchu erioed hyd yn oed. Mae rhai yn dod i gael eu galw'n “forever Chemicals” yn Saesneg.

Heblaw am ambell i eithriad prin, ar y cyfan nid yw POPs yn cael eu defnyddio mewn cynhyrchion newydd mwyach, ond maent i'w gweld mewn gwastraff o hyd. Os yw gwastraff o'r fath (fel WEEE neu decstilau) yn cael ei ailgylchu, gall POPs ailymddangos yn yr economi pan fydd y deunyddiau sy’n cael eu creu’n cael eu defnyddio mewn cynhyrchion newydd.

**Mwy nag Ailgylchu** – cynllun Llywodraeth Cymru i wireddu'r economi gylchol yng Nghymru, lle’r ydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau ac osgoi gwastraff. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. https://llyw.cymru/mwy-nag-ailgylchu.

**Offer trydanol ac electronig (EEE)** – offer sy'n ddibynnol ar gerrynt trydan neu feysydd electromagnetig er mwyn gweithio'n iawn ac offer ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur cerrynt a meysydd o'r fath ac sydd wedi'u cynllunio i'w defnyddio gyda sgôr foltedd heb fod yn fwy na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt union. Pan fydd EEE yn dod yn wastraff, cyfeirir ato fel 'WEEE’.

**Offer trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE)** – gweler “EEE” ac Atodiad 5 am restr o eitemau EEE sy'n cael eu dosbarthu fel sWEEE.

**Sancsiynau sifil** – yn cael eu defnyddio gan reoleiddiwr fel dewis arall i ddwyn erlyniad troseddol. Y sancsiynau sifil sydd ar gael o dan y rheoliadau yw cosbau ariannol penodedig, cosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau diffyg cydymffurfio.

**Sgil-gynhyrchion anifeiliaid** – mae ganddynt gwmpas eang, sy'n cynnwys llawer o gynhyrchion anifeiliaid gan gynnwys cig, pysgod, llaeth ac wyau pan nad oes bwriad i bobl eu bwyta, gwastraff arlwyo a chynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid gan gynnwys crwyn, plu, gwlân, esgyrn, cyrn, a charnau. Gweler: https://www.gov.uk/guidance/animal-by-product-categories-site-approval-hygiene-and-disposal.

**Treuliad anaerobig** – proses o ddadelfennu wedi'i reoli ar gyfer deunyddiau bioddiraddadwy o dan amodau rheoledig lle mae ocsigen rhydd yn absennol, ar dymheredd sy'n addas ar gyfer rhywogaethau bacteria anaerob mesoffilig neu thermoffilig a rhywogaethau bacteria anaerob amryddawn sy'n digwydd yn naturiol, sy'n troi’r mewnbynnau’n fionwy sy'n llawn methan a gweddillion treuliad anaerobig cyfan. Gall gweddillion treuliad anaerobig cyfan fod yn fuddiol i briddoedd y gosodir y gweddillion hyn arnynt a'r planhigion y mae'r priddoedd hyn yn eu cynnal.

DRAFT

**Atodiad 1 Yr is-ffracsiynau gwydr sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy gwydr**

| **Gwydr** | |
|---|---|
| *Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| Poteli gwydr a ddefnyddir fel pecynnu<br>Jariau gwydr a ddefnyddir fel pecynnu<br><br>ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'i halogi gan y gweddillion hynny. | Llestri (yn cynnwys cerameg a tsieina)<br>Gwydrau yfed<br>Llestri coginio gwydr a cherameg<br>Bylbiau golau<br>Caeadau metel ar jariau neu dopiau metel poteli (y dylid eu rhoi yn y ffrwd fetel)<br>Drychau<br>Poteli farnais ewinedd<br>Dalenni gwydr (gan gynnwys cwarelau ffenestri, gwydr ffrâm llun, sgriniau gwynt ceir) |

DRAFT

**Atodiad 2 – Yr is-ffracsiynau cartonau, metel a phlastig sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy cartonau, metel a phlastig**

| **Cartonau, metel a phlastig** | |
|---|---|
| *Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| **Cartonau**<br>Deunydd pecynnu cyfansawdd seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynnu sydd wedi'i wneud o bapur-fwrdd neu ffibrau papur, wedi'i lamineiddio â phlastig polythen neu bolypropylen dwysedd isel, ac y gall fod iddo haenau o ddeunyddiau eraill hefyd, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw, wedi'i gyfyngu i'r canlynol:<br>• cartonau<br>• cwpanau diodydd papur gyda haen o bolythen neu blastig polypropylen dwysedd isel<br>• cynwysyddion papur caled (er enghraifft tiwbiau creision tatws y gellir eu stacio)<br><br>ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | **Cartonau**<br>Cwpanau papur â haen wrth-ddŵr fewnol fioddiraddadwy y gellir ei chompostio |
| **Metel**<br>Aerosolau dur ac alwminiwm<br>Caeadau a chapiau dur ac alwminiwm jariau a photeli<br>Ffoil alwminiwm<br>Hambyrddau bwyd alwminiwm<br>Tiwbiau alwminiwm<br>Tuniau a chaniau dur ac alwminiwm<br><br>ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | **Metel**<br>Podiau coffi metel<br>Caniau paent (gan gynnwys caniau paent chwistrell aerosol)<br>Cistiau nwy<br>Metel sgrap (gan gynnwys cyllyll a ffyrc, a sosbenni) |

DRAFT

**Plastig**

Deunydd pecynnu plastig tereffthalad polyethylen amorffaidd a thereffthalad polyethylen crisialog sy'n cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, caeadau caled a lled-galed a chwpanau clir ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod dan beiriant isgoch agos.

Poteli plastig tereffthalad polyethylen amorffaidd ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod o dan beiriant is-goch.

Deunydd pecynnu polyethylen dwysedd uchel a dwysedd isel sy'n cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau a chaeadau caled a lled-galed ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod o dan beiriant isgoch.
Poteli plastig, pympiau a sbardunau polyethylen dwysedd uchel a dwysedd isel ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod o dan beiriant isgoch.

Pecynnu plastig polypropylen sy'n cynnwys potiau, tybiau, hambyrddau, caeadau caled a lled-galed a chwpanau clir ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod o dan beiriant isgoch.

Tiwbiau pecynnu plastig polyethylen a pholypropylen ac eithrio:

- lle maent yn llai na 50x50mm,
- lle maent wedi cynnwys cynhyrchion a ddefnyddir mewn gwaith adeiladu,
- lle mae ganddynt haen fetel, neu
- lle maent yn blastig aml-monomer

Poteli, pympiau a sbardunau plastig polypropylen ac eithrio lle mae'r plastig yn cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod o dan beiriant isgoch

ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus

**Plastig**

Bagiau plastig (yn cynnwys bagiau siopa, bagiau bara a bagiau bwyd wedi'i rewi, bagiau compost, bagiau gwrtaith, bagiau bwydydd anifeiliaid)
Bagiau swmp ar gyfer cludo tywod, graean, hadau, bwydydd anifeiliaid ac ati
Caniau paent plastig
Cydau (gan gynnwys ar gyfer bwyd anifeiliaid anwes a glanedydd hylifol)
Deunydd pecynnu losin a bisgedi
Deunydd pecynnu plastig y gellir eu compostio, sy'n fioddiraddadwy neu'n ocso-ddiraddadwy
Deunydd pecynnu swigod
Ffilm blastig (gan gynnwys clingffilm, ffilm pecynnau bwyd a deunydd lapio paledi, deunydd tynlapio, deunydd lapio silwair, gorchudd cnydau)
Hambyrddau bwyd plastig du sy'n cynnwys pigment du carbon fel na ellir ei ganfod o dan beiriant isgoch.
Papurau melysion a bisgedi
Pecynnau creision
<u>Pecynnu polypropylen ymestynedig fel cynwysyddion tecawê.</u>
Pecynnu pothelli a ddefnyddir yn aml ar gyfer eitemau fferyllol a thabledi eraill sy'n cynnwys ceudodau plastig neu bocedi wedi'u ffurfio ymlaen llaw fel arfer wedi'u selio â sêl caead wedi'i wneud o ffoil alwminiwm neu ffilm blastig.
Plastig caled nad yw'n ddeunydd pacio (gan gynnwys teganau, hongwyr dillad, potiau planhigion)
Podiau coffi plastig
Polystyren, gan gynnwys caeadau cwpan diodydd, a phecynnu ewyn sy'n ehangu.
Sachets

DRAFT

| | |
|---|---|
| (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o’r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | |

DRAFT

**Atodiad 3 – Yr is-ffracsiynau papur a cherdyn sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy papur a cherdyn**

| **Papur a Cherdyn** | |
|---|---|
| *Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| Unrhyw bapur a cherdyn ac eithrio'r is-ffracsiynau a restrir yn y golofn dde<br><br>ond gan eithrio hefyd unrhyw bapur gwastraff neu gerdyn sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u halogi gan wastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | Amlenni wedi'u padio gyda leinin polyethylen.<br>Cardiau crafu.<br>Carpion papur.<br>Derbynebau til.<br>Deunydd pecynnu cyfansawdd seiliedig ar ffibr, sef deunydd pecynnu sydd wedi'i wneud o bapur-fwrdd neu ffibrau papur, wedi'i lamineiddio â phlastig, ac a allai gynnwys haenau o ddeunyddiau eraill hefyd, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw.<br>Llyfrau clawr caled.<br>Papur a cherdyn sydd wedi'i lamineiddio.<br>Papur a cherdyn sy'n cynnwys gliter neu ffoil.<br>Papur a cherdyn wedi'i halogi â bwyd, paent, olew neu saim.<br>Papur cwyr, silicon, gwrthsaim.<br>Papur wal.<br>Sticeri a nodiadau gludiog.<br>Tyweli papur, hancesi papur, hancesi gwlyb, papur cegin. |

DRAFT

**Atodiad 4 – Yr is-ffracsiynau gwastraff bwyd sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy gwastraff bwyd**

| Gwastraff bwyd | |
|---|---|
| *Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| Ystyr "gwastraff bwyd" yw gwastraff a reolir sydd –<br>(a) wedi bod, ar unrhyw adeg, yn fwyd (nad yw at y diben hwn yn cynnwys diod) y bwriedir i'w fwyta gan bobl, neu<br>(b) sy'n wastraff bioddiraddadwy sy'n deillio o brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod,<br>ond nid yw'n cynnwys gwastraff sy'n gymysg â dŵr neu unrhyw hylif arall o ganlyniad i'r ffaith bod y dŵr neu'r hylif wedi cael ei ddefnyddio i lanhau unrhyw le neu offer a ddefnyddir wrth brosesu neu baratoi bwyd neu ddiod;<br>a hefyd nid yw'n cynnwys—<br>(a) sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n cynnwys deunydd Categori 1 fel y rhestrir yn Erthygl 8, neu ddeunydd Categori 2 gwastraff fel y rhestrir yn Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 1069/2009;<br>(b) gwastraff bwyd o eiddo sy'n cynhyrchu llai na 5 cilogram o wastraff bwyd mewn saith diwrnod yn olynol; neu<br>(c) unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005([11]) neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | Gweler yr eithriadau a restrir yn y golofn ar y chwith. |

([11]) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), diwygiwyd gan O.S. 2020/1339 (Cy. 296).

DRAFT

**Atodiad 5 – Yr is-ffracsiynau offer trydanol ac electronig gwastraff bach (sWEEE) sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy sWEEE**

| **sWEEE** | |
|---|---|
| *Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| Yr offer canlynol sy'n ddibynnol ar gerrynt trydan neu feysydd electromagnetig i weithio'n iawn a chyfarpar ar gyfer cynhyrchu, trosglwyddo a mesur cerrynt a meysydd o'r fath ac a gynlluniwyd i'w defnyddio gyda sgôr foltedd heb fod yn fwy na 1,000 folt ar gyfer cerrynt eiledol a 1,500 folt ar gyfer cerrynt union:<br><br>Offer trydanol ac electronig sy'n dod o fewn un o'r categorïau EEE a restrir yn Atodlen 3 i Reoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2013, (ond heb gynnwys eitemau gydag unrhyw ddimensiwn allanol sy’n fwy na 50 centimetr), gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i:<br><br>Camerâu<br>Camerâu a recordwyr fideo<br>Clociau, watshis ac offer ar gyfer mesur, dangos neu gofrestru amser<br>Cloriannau electronig<br>Cyfrifiaduron, dyfeisiau electronig personol ac offer cyfrifiadurol arall – gan gynnwys gliniaduron a nodiaduron<br>Cyfrifianellau poced a desg<br>Cyllyll trydan<br>Dyfeisiau lleoliadol/GPS<br>Ffrïwyr<br>Heyrn smwddio a mathau eraill o offer i ofalu am ddillad<br>Lampau ac offer goleuo arall<br>Microdonnau<br>Monitorau<br>Oergelloedd a rhewgelloedd<br>Offer ar gyfer torri gwallt, sychu gwallt, brwsio dannedd, eillio, tylino ac offer arall ar gyfer gofal y corff<br>Offer chwaraeon electronig<br>Offer pŵer<br>Offerynnau cerddorol electronig | Unrhyw WEEE gydag unrhyw ddimensiwn allanol sy’n fwy na 50 centimetr. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Offerynnau monitro a rheoli a ddefnyddir mewn gosodiadau diwydiannol (er enghraifft, mewn paneli rheoli)<br>Peiriannau coffi a pheiriannau malu coffi<br>Peiriannau dosbarthu awtomatig ar gyfer cynhyrchion yn cynnwys diodydd oer a phoeth<br>Setiau radio<br>Setiau teledu a sgriniau<br>Sugnwyr llwch<br>Synwyryddion mwg a charbon deuocsid<br>Teganau a gemau electronig<br>Tegelli<br>Teleffonau<br>Tostwyr<br>Thermostatau gwresogi<br><br>ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o’r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | |

DRAFT

**Atodiad 6 – Yr is-ffracsiynau tecstilau nas gwerthwyd sy'n rhan o ffrwd wastraff ailgylchadwy tecstilau nas gwerthwyd**

| **Tecstilau nas gwerthwyd** | |
|---|---|
| Beth ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff | *Beth NA ddylid ei roi yn y ffrwd wastraff:* |
| Dillad<br>Tecstilau nad ydynt yn ddillad gan gynnwys carpedi a theils carpedi, tecstilau hamdden (fel pebyll a tharpolin), matresi, rygiau, dodrefn meddal (fel llenni, cynfasau gwely, blancedi, duvets, clustogau, tywelion), isgarped;<br>Deunydd pecynnu wedi'i wneud o decstilau;<br><br>ond gan eithrio unrhyw wastraff sydd wedi'i gategoreiddio fel gwastraff peryglus o dan reoliad 6 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 neu sy'n cynnwys gweddillion gwastraff neu sylweddau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai peryglus o dan reoliad 6 o'r Rheoliadau hynny neu sydd wedi'u halogi gan y gweddillion hynny. | Unrhyw beth sydd heb ei gynnwys yn y golofn ar y chwith. |

DRAFT

**Atodiad 7 Enghreifftiau o eiddo annomestig**

i) adeiladau treftadaeth;
ii) barau a thafarndai;
iii) bwytai a chaffis;
iv) canolfannau cymunedol a neuaddau pentref;
v) canolfannau garddio;
vi) carchardai:
vii) cartrefi gofal, cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio;
viii) cludfwyd a gwerthwyr bwyd symudol;
ix) eiddo amaethyddol;
x) ffatrïoedd;
xi) fferyllfeydd, meddygfeydd, deintyddfeydd, optometryddion, optegwyr, podiatryddion a chyfleusterau gofal sylfaenol eraill;
xii) garejis ar gyfer gwasanaethu a thrwsio cerbydau;
xiii) gorsafoedd bws, gorsafoedd rheilffordd, porthladdoedd môr, meysydd awyr, meysydd hofrenyddion;
xiv) gorsafoedd gwasanaethau a gorsafoedd petrol;
xv) gweithdai;
xvi) gwely a brecwast, gwestai;
xvii) hosbisau
xviii) lleoliadau adloniant a chwaraeon, gan gynnwys canolfannau hamdden;
xix) lleoliadau ar gyfer digwyddiadau dros dro fel gwyliau a sioeau, gan gynnwys digwyddiadau awyr agored;
xx) llyfrgelloedd ac amgueddfeydd;
xxi) mannau addoli;
xxii) marchnadoedd awyr agored;
xxiii) meysydd chwaraeon a stadia;
xxiv) meysydd gwersylla a meysydd carafannau (ond nid carafannau unigol);
xxv) meysydd sioeau;
xxvi) parciau gwyliau a chyrchfannau gwyliau;
xxvii) safleoedd adeiladu;
xxviii) sefydliadau addysgol fe prifysgolion, colegau ac ysgolion;
xxix) setiau cynhyrchu ffilm a theledu;
xxx) sinemâu;
xxxi) siopau, canolfannau siopa a safleoedd manwerthu eraill;
xxxii) swyddfeydd;
xxxiii) theatrau a lleoliadau celfyddydol;
xxxiv) warysau; ac
xxxv) ysbytai.

DRAFT